

ECO'r Wyddfa

Rhif: 445
Gorffennaf | Awst 2016
Pris: 70c



Agoriad Swydddogol Tŷ Caxton

Er fod y siop a Chanolfan Cerdded a Darganfod wedi bod ar agor ers peth amser ar Stryd Fawr, Llanberis, cynhaliwyd yr agoriad swydddogol ddiwedd Mehefin, gyda nifer dda o wahanol wahoddedigion yn mynychu – a chamerau Heno yno hefyd i adrodd yr hanes i gynulleidfa led-led Cymru ar y noson.

Mae Tŷ Caxton yn eiddo i Fenter Fachwen ers tua pum mlynedd, ond dechreuad go ddigalon a gafwyd i'r freuddwyd o sefydlu siop, oherwydd i'r adeilad gael ei ddifrodi gan lifogydd. Ond gyda chymorth gwahanol asiantaethau, cymorthdaliadau ariannol, a llafur gwirfoddol, aeth y gwaith rhagddo.

Mae Tŷ Caxton bellach yn ganolbwynt gwahanol weithgaredd: y siop yng ngofal Sally Ellis yn gwerthu planhigion a chynnyrch wedi ei baratoi gan weithwyr Menter Fachwen; a'r Ganolfan Cerdded a Darganfod yng ngofal Gareth Roberts, a'i deithiau



Maureen Edwards (Aelod Senedd), Kate Toms (Prif Weithredwr Menter Fachwen), Alan Pritchard (Cadeirydd ac Aelod Senedd), Gareth Roberts (Cydllynydd Cerdded a Darganfod), Goronwy Hughes (Aelod Senedd) a Sally Ellis (Rheolwraig y Siop).

cerdded wythnosol yn hynod boblogaidd. Bellach, mae llyfrgell yn yr adeilad hefyd, a hawl i fenthycu llyfrau hanes lleol a byd natur. Y bwriad yw sefydlu llyfrgell ymchwil ar yr ail lawr. Yno hefyd mae sinema/y Stafell ddarlithio ac oriel arddangos (sydd ar hyn o bryd yn dangos caeau pêl-droed coll yr ardal). Mae llawr uchaf yr adeilad eto i'w ddatblygu.

I ddathlu'r llwyddiant mae Gŵyl Ddarganfod wedi ei threfnu, ac erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd, bydd ar fin cychwyn (gweler manylion ar dudalen 20.)

ECO'r Wyddfa

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'RECO 2015			
Rhifyn Medi	Copi i law Awst 21	Bwndelu Medi 2	Ble Llanrug

RHIF 445
Gorffennaf | Awst 2016
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL:

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Melys lais

Annwyl ffrindiau ac unrhyw Gymdeithas sy'n ceisio llenwi dyddiadur yn llawn o nosweithiau difyr ar gyfer tymor 2016-17. Y Nadolig yma fe fydd fy nghofiant i'r 'melys lais' ei hun, David Lloyd, yn y siopau ddechrau Rhagfyr a dwi'n gobeithio teithio eto o ardal i ardal yn siarad am 'y tenor â'r deigryn yn ei lais' rhwng mis Medi 2016 a mis Mai 2017 ac, wrth gwrs, fe gawn ni wrando ar y llais yn ogystal.

'Mae hi'n swnio'n ddifyr, Hywel,' fe'ch clywaf yn dweud 'ond faint fydd y gost?'

Gan fod y noson yn rhan o gynllun 'Awdur ar Daith', mae nawdd ar gael i fyny at 50%. Cost y noson yw £200, sy'n cynnwys costau teithio o Gaerdydd.

Dyma ydi'r drefn. Os ewch chi ar wefan: Llenyddiaeth Cymru, Awdur ar Daith fe welwch sut mae gwneud cais am y nawdd. Awgrymir eich bod yn gwneud hyn mor fuan â phosib. Fe fyddwch angen manylion amdanaf.

Enw: Hywel Gwynfryn, 53 Heol Wingfield, Eglwysnewydd, Caerdydd. Cyfeiriad ebost: hywel.gwynfryn@bbc.co.uk. Teitl y noson: Melys Lais David Lloyd. Rhif cyswllt (rhag ofn) 07968 889357.

Y drefn wedyn ydi fod siec yn cael ei thalu ar y noson am £200 (sy'n cynnwys costau teithio) ac yna fe ddaw arian y nawdd i chi ymhen yr wythnos.

Gobeithio y cawn ni gyfarfod yn swŷn melys lais David Lloyd yn canu Hyder, Lusanne, Sul y Blodau a Bugail Aberdyfi.

Yn gywir
Hywel

Cyfarfodydd ymgynghori gyda thrigolion cymuned Llanrug

Mae gennym ddiddordeb mewn sgwrsio gyda thrigolion sydd yn byw mewn cymunedau sydd a chanran uchel (o leiaf 60% yn ôl y cyfrifiad diwethaf) o siaradwyr Cymraeg.

Hoffem drafod a chydweithio i drafod beth sydd yn arbennig o fewn y cymunedau hyn sydd yn galluogi eu trigolion i gynnal ei gilydd drwy weithgarwch anffurfiol.

Byddwn yn cwrdd 10:00-12:00 ar y dydd Llun 11/7/16 yn y Sefydliad Coffa ar gyfer Bore Coffi ac yna byddwn yn cwrdd yn Hafan Elen wedi i'r clwb cinio orffen am banded a sgwrs (agored i bawb) o 1:00-3:30 ar y dydd Mawrth 12/7/16 i gael barn trigolion a bydd croeso cynnes yn aros pawb ddaw draw am sgwrs.

I ddilyn bydd ymchwilwyr o Brifysgol Abertawe yn cynnal cyfarfod tebyg yn ardal Crymych. Bydd yr holl wybodaeth byddwn yn ei gasglu o fewn y cyfarfodydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod yng Nghaerdydd ar yr 20fed o Orffennaf. Bwriad y cyfarfod yng Nghaerdydd fydd datblygu cais am arian i gynnal gwaith ymchwil o fewn y cymunedau a bydd barn y trigolion yn allweddol i ddatblygiad y cais hwn.

Mae croeso i bawb fod yn rhan o'r gwaith hwn a chroesawn gyfraniadau gan bob oedran o fewn y gymuned. Bydd croeso cynnes yn eich aros ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn ar sut brofiad yw hi i chi fod yn byw yn y gymuned fwyaf Cymreig yn y Byd!

Gyda diolch

Catrin Hedd Jones, Ph.D.
Ymchwilydd yn Mhrifysgol Bangor
c.h.jones@bangor.ac.uk / 01248 382596 / @CatrinHedd

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£300: Er cof am Geraint Elis, Cilgerran, Bethel.

£20: Brenda, Iolo ac Eurig, Tŷ Ni, Waunfawr, er cof am Iestyn; Er cof am John H. Griffiths, Bigil, Llanrug, gan y teulu.

£15: Di-enw

£10: Er cof am ffrind cymwynasgar, Geraint Elis, gan Tegid Roberts, Arwel, Llanrug; Harriet Roberts er cof am Mrs Eirlys Pritchard, Caeathro; Mary Lloyd Lewis, 33 Hafod Oleu, Deiniolen.

£8: Rhodd gan Carys a Dafydd Hamer, Bron Hafod, Ceunant.



POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WŶN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

Creithio'n Cymoedd




Dros y misoedd diwethaf mae gwaith paratoi sawl cynllun cynhyrchu trydan wedi ei wneud yn y cymoedd uwch Nant Peris. Cawsant eu cymeradwyo gan Adran Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru – gydag amodau



amgylcheddol. Mae'r graith ar lethrau Cwm Gafr eisoes yn dechrau glasu, a gobeithio mai dyna fydd hanes craith Cwm Dudodyn hefyd. Mae achos y gwaith o Gwm Padrig ac Afon Las hyd at bont Gwastadnant yn wahanol. Fel y gwelir o'r llun uchod, mae'r Parc



Cenedlaethol wedi gwahardd parhau â'r gwaith yma, a hynny oherwydd peidio cadw at yr amodau amgylcheddol. Mae'n ymddangos hefyd mai'r gwaith hwn fu'n gyfrifol am lygredd yn afon Nant Peris yn gynharach eleni.



Diddorol fydd gweld sut y bydd y Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu ynglŷn â'r llanastr hwn yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ceisiadau am drwyddedau ar gyfer cynllun Llanberis wedi'u tynnu'n ôl

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru gadarnhau bod Snowdonia Pumped Hydro wedi tynnu'n ôl ei geisiadau am drwyddedau i ganiatau gweithgareddau gollwng dŵr ar gyfer y cynllun yng Nglyn Rhonwy ger Llanberis. Heb y trwyddedau yma gan CNC, ni chaiff y cwmni adeiladu na gweithredu'r cynllun. Mae CNC yn dweud nad oedd y cwmni wedi cyflwyno digon o wybodaeth ynglŷn â gweithredu a rheoli'r cynllun o ddydd i ddydd a bod bylchau yn yr wybodaeth dechnegol. Meddai Dylan Williams, Rheolwr Gweithrediadau yn CNC: "Mae Llyn Padarn yn ased naturiol pwysig a hanfodol i'r ardal. Mae'n bwysig i'r economi leol, i fywyd gwyllt ac i bobl. Dim ond os ydan ni'n gwbl fodlon bod cynlluniau cwmnïau'n profi y gallan nhw weithredu'n ddiogel, heb niweidio'r amgylchedd neu

gymunedau lleol, y byddwn yn rhoi trwyddedau amgylcheddol. Ond, nid yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno digon o wybodaeth inni wneud y penderfyniad hwnnw, ac felly mae'r ceisiadau wedi'u tynnu'n ôl. Pe baem yn gwneud penderfyniad ynghylch y ceisiadau ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mi fydden nhw wedi cael eu gwrthod." Bydd raid i Snowdonia Pumped Hydro ystyried rwan ydyn nhw am ail gyflwyno'r cais ai peidio. Mae trwyddedau amgylcheddol yn elfennau ar wahân i'r broses gynllunio, a gaiff ei rheoli gan Gyngor Gwynedd a'r Arolygiaeth Gynllunio. Er mwyn gweithredu'r math hwn o gyfleuster yn gyfreithlon, rhaid i gwmni gael trwyddedau amgylcheddol yn ogystal â chaniatâd cynllunio.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Bu plant ac ieuencid y fro yn llwyddiannus unwaith yn rhagor yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint, a gwenodd yr haul gydol yr wythnos. Llongyfarchiadau i'r holl gystadleuwyr.
- Yn naturiol, denodd yr heulwen ymwelwyr lu i'r ardal dros wythnos gwyliau'r Sulgwyn. Yn anffodus, doedd rhai ohonynt ddim yn parchu'r union le y daethant i'w fwynhau, a chafwyd cryn nifer o gwynion o ardal Dinorwig am sbwriel wedi ei adael yn ardal yr Allt Ddu. Mae biniau sbwriel yno, ond efallai fod angen mwy.
- Datgelwyd fod aelodau o'r grŵp "Britain First" wedi bod yn cynnal 'ymarferion' (am ddiffyg disgrifiad gwell), o flaen Castell Dolbadarn. Mae'r

grŵp hwn mor eithafol asgell dde nes gwneud i ddatganiadau UKIP ar fewnfudwyr swinio'n groesawgar, ac mae edrych ar eu gwefan yn ddigon i ddychryn unrhyw un. Ond mae'n amlwg, gwaetha'r modd, fod cefnogaeth i'w daliadau. Mae'n bryder fod y pendil gwleidyddol byd-eang ar hyn o bryd yn gogwydd fwyfwy i'r dde eithaf, ac yn apelio at ofnau pobl yn hytrach na'u natur ddyngarol.

- Gorfoledd. Roedd llwyddiant ein tim pêl-droed yn anhygoel a chefnogaeth y dilynwyr yn amhrisiadwy. Yn ôl pob tebyg, roedd hanner poblogaeth y wlad wedi gwyllo'r gêm yn erbyn Rwsia (aeth yr "Eco" i'r wasg cyn y gêm ym Mharis), a does ond gobeithio fod y llwyddiant yn parhau erbyn i'r rhifyn hwn

eich cyrraedd. Ond yr un mor bwysig a llwyddiant y tim oedd ymddygiad y cefnogwyr; yn cael canmoliaeth uchel gan y Wasg Ffrengig: 'Gwlad y gôls a Gwlad y gân' **ALLAN.** Dyna ganlyniad y bleidlais fawr ar ddyfodol Gwledydd Prydain. Roedd 52% o blaid gadael a 48% o blaid aros. Ar un canrannau bron oedd hanes Cymru hefyd, gyda pump awdurdod lleol yn unig yn pleidleisio o blaid aros: Gwynedd, Ceredigion, Mynwy, Morgannwg a Chaerdydd. Roedd yn hollol wahanol yn yr Alban, gyda dim ond 38% yn unig o blaid gadael, a phob un awdurdod lleol yn pleidleisio i aros. Arweiniodd hyn am alwad gan eu Prif Weinidog i gynnal refferendwm arall ynglŷn â


dyfodol y wlad. Aros hefyd oedd dymuniad Gogledd Iwerddon. Mae'r Prif Weinidog yn ymddiswyddo o fewn ychydig fisoedd, a chafwyd datganiad o ddiffyg hyder yn arweinydd y Blaid Lafur. Llam ddifeddwl i dywyllwch neu gam goleuedig i'r dyfodol? Amser a ddengys. Ond bydd newid sylfaenol yng ngwleidyddiaeth gwledydd Prydain. A holltir y Blaid Geidwadol neu a fydd yn symud i dde mwy eithafol? A fydd UKIP yn diflannu a hwythau wedi gwireddu eu breuddwyd? A wireddir dymuniad yr SNP yn dilyn ail refferendwm, a'r Alban yn torri'n rhydd? A sut fath o Deyrnas 'Unedig' fydd ar ol, a Chymru fach lywaeth yn cael ei thra-arglwyddiaethu gan Loegr?

Gwobrau ‘Cymraeg i Oedolion’



Derbyniodd dwy o Fro'r Eco wobrau yn ystod Seremoni Wobrwyo yr Adran Gymraeg i Oedolion (Grwp Llandrillo-Menai) ddiwedd Mai – un tiwtor ac un dysgwraig. Cyflwynydd y noson arbennig yn y Galeri oedd Nia Parry a rhannwyd gwobrau i ddysgwyr ar draws y grŵp yn dilyn rhodd hael gan Ymddiriedolaeth Park Jones. Enillodd Audra Roberts o Lanrug wobwr Tiwtor y flwyddyn ar ôl cael ei henwebu gan ddysgwyr o'i dosbarthiadau yng Ngholeg Menai, Caernarfon a Bangor. Dywedodd un dysgwr: 'Diolch i Audra am fy ngwneud yn hapus ac yn frwdfrydig am barhau i

ddysgu Cymraeg ac i gymryd balchder wrth ei siarad.' Mae Lauren Oliver, sy'n dod o Dorset yn wreiddiol, wedi ymgartrefu ym Mhenisarwaun. Roedd hi wrth ei bodd yn ennill teitl Dysgwr y Flwyddyn - Lefel Mynediad. Dywedodd Fflur Rees Jones, ei thiwtor, ei bod hi'n haeddu ennill y wobwr oherwydd ei bod yn 'ddysgwraig arbennig sy' wedi gwneud cynnydd neilltuol dros y flwyddyn a hanner diwethaf.' Derbyniodd Lauren hefyd y brif wobwr ar draws holl safleoedd y Grŵp ar Lefel Mynediad.



Mae'r grŵp lleol, Alffa, wedi bod yn brysur dros y mis diwethaf, ac yn wynebu haf prysur hefyd. Dau o fechgyn lleol – Sion Land, (Ceunant) ar y drymiau, a Dion Jones (Llanrug) ar y gitar allaisydd – yw'r aelodau; y ddau'n ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail. Bu Alffa yn perfformio ar Lwyfan Selar yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint, ac yna cawsant gyfle i chwarae awr o set ar ddiwrnod 'Snowdon Rocks' gyda Mike Peters. Maent esioes wedi cael cynnig torri record Sengl Selar.



Mae penwythnos prysur yn eu hwynebu. Maent yn cynnal gig fel rhan o Gŵyl Arall yng Nghaernarfon ar yr 8fed o Orffennaf, a'r diwrnod canlynol, yn y Bontnewydd gyda Gŵyl y Bont. Eglurodd Dion (oherwydd anwybodaeth gyfoes y golygydd!) mai cerddoriaeth blŵs trwm yw eu hoffter, a'u bod yn cael eu dylanwadu gan fandiau fel Tymbal a The Black Keys. Y gobaith yw bod yn rhan allweddol o'r sîn roc Gymraeg, a cheisio profiad mewn cymaint o gigs a phosib yn y cyfamsr.

BRYNREFAIL Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Ffôn: 870580



Cyngor Cymuned Llanddeiniolen Sedd Wag: Brynrefail.

Mae Carolyn Roberts wedi cynrychioli ardal Brynrefail ar y cyngor ers tua 5 mlynedd, ac wedi gwneud hynny yn drylwyr a chydwybodol iawn. Mae Carolyn bellach wedi ymddiswyddo ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei gwaith dros y blynnyddoedd. Felly fel Cyngor rydym angen cynrychiolydd i lenwi sedd Brynrefail.

Tybed oes unrhyw un â diddordeb o wasanaethu fel cynghorydd o ardal Brynrefail ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Am fwy o fanylion neu wybodaeth pellach, cysylltwch â:

Eleri Bean, Clerc a Swyddog Ariannol

Bwthyn Isaf, Deiniolen LL55 3LS

01286 871757

eleribean@btinternet.com

Profedigaeth Ar Fehefin 15fed yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Monica McCafferty, 10 Trem Eilian yn 79 mlwydd oed. Daeth i fyw i'r pentref nifer helaeth o flynyddoedd yn ôl gan drigo yn Isfryn. Nid oedd wedi bod yn dda ei hiechyd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Yn gymeriad tawel a chymwynasgar, gwelir ei cholli gan ei theulu a'i ffrindiau ymhell ac agos. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â hwynt oll yn eu profedigaeth.

Sefydliad y Merched Yn ystod cyfarfodydd diweddar cafwyd cyfle i groesawu dau siaradwr gwadd o'r fro. Cafwyd sgwrs gan Dafydd Whiteside Thomas dan y testun "Tair Llofruddiaeth" yn olrhain llofruddiaethau yn ardal Deiniolen a Llanberis. Yna cafwyd noson yng ngofal Arwel Jones yn adrodd hanes teithiau 'Hogia'r Wyddfa' i'r Amerig, Awstralia a Nigeria.

Cafwyd cinio Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Cymdeithasol, Llanberis, yn dilyn lluniaeth flasus wedi ei drefnu gan y llywydd, Pat Jones. Bu'r aelodau yn brysur yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth Hetiau Pasg. Janice Jones oedd yn fuddugol ym marn y beirniad, Marian Jones o Lanberis.

Yn y Clwb Cymdeithasol hefyd y cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Grŵp Eryri. Fel rhan o'r noson roedd Simon Bower yno ar ran Cwmni Morgan Evans yn rhoi gwerthusiad i nifer o wahanol henebion o eiddo yr aelodau. Roedd yr aelodau hefyd o Frynrefail yn llawn hwyl wedi eu dewis yn fodelau i arddangos dillad Suzy's Fashion.

Roedd y cyfarfod arferol ym Mis Mai i drafod yr Argymhellion ar gyfer Cyfarfod Blynnyddol NFWL. Pleidleisiwyd o blaid dau benderfyniad, sef rhoi Gofal Priodol Mewn Ysbytai i Gleifion Dementia ac Osgoi Gwastraff Bwyd a mynd i'r afael a thlodi bwyd. Bydd y llywydd, Pat Jones, yn mynychu'r Cyfarfod Blynnyddol yn Brighton i bleidleisio ar ein rhan.

Talwyd teyrnged yn ystod y cyfarfod i'r ddiweddar Jennie Hughes, Bryn Parc – aelod ffyddlon a oedd wedi bod yn ysgrifenyddes a llywydd y Sefydliad ym Mrynrefail a'i mam yn un o sylfaenwyr y mudiad yn y pentref yn 1941. Cafodd Jennie yr anrhydedd o gael gwahoddiad i gynrychioli y Sefydliad mewn garddwest ym Mhalas Buckingham a diwrnod i'w gofio iddi hi oedd hwnnw a balchder y teulu yn amlwg. Unrhyw weithgaredd oedd gan y Sefydliad, Jennie fyddai y gyntaf ar y rhestr i gymryd rhan, boed yn Gân Actol, Teithiau, Dawnsio Gwerin a phob math o grefftau. Byddai ei sgwrs bob amser yn cynnwys y teulu a bydd colled iddynt hwy a'r Sefydliad ar ei hôl.

I gloi'r noson roedd y llywydd ac Anita Long wedi trefnu i'r aelodau gael blasu a gwerthuso gwahanol fwydydd o dair wahanol Archfarchnad. Mwynhawyd y noson yn fawr gan bawb.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Y Gymdeithas

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Mehefin 9fed. Lowri Prys Roberts oedd llywydd y noson a than ei gofal hi roedd y defosiwn a oedd yn arwain testun y noson, sef "Pererin Heddwch". Cawsom ein tywys drwy gyfrwng sgwrs a darluniau gan y siaradwr gwadd, sef un o'n haelodau - Dafydd Ellis, Gweledfa, i yrfa ryfeddol yr heddychwyr George M.L. Davies. Roedd y testun, wrth gwrs, yn agos at galon ein siaradwr gan i'r heddychwyr dreulio rhan olaf ei oes yn Nolwyddelan ac yntau, Dafydd, yn hanu o'r pentref a chof byw ganddo o'i gyfarfod yn blentyn ifanc iawn yn yr ysgol leol. Noson a werthfawrogwyd yn fawr iawn gan bawb.

Mae y cyfarfod nesaf yn y Caban ar Orffennaf 14eg am 7 o'r gloch. Byddwn yn cael ein tywys ar daith gan Gwyn Hefin Jones a'r Cadeirydd fydd Dafydd Ellis.

Oedfaon Gorffennaf am 5 yr hwyr

17: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

24: Parch Geraint Roberts, Porthaethwy.

CEUNANT Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)



Genedigaeth Llongyfarchiadau i Dion a Gemma o Rosgadfan ar enedigaeth eu mab, Macsen Hedd Hamer, ar y 27ain o Ebrill. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am eu cyfarchion a'r anrhegion.

Llongyfarchiadau i Carys a Dafydd Hamer, Bron Hafod, Ceunant, a hefyd i Karen a Harri ar ddod yn nain ac yn daid.



CHRIS GRIFFITHS

Trwsio Ffenestri UPVC • Drysau Cloeau • Bachau • Twll Llythyrâu Ac unedau Gwydr wedi Chwythu

18 Mill Lodge, Llandegfan, Ynys Môn LL59 5YB

01248 713 369 neu 07813 455653

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

FURNITURE & FLOORING

••• **01286 673535** •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

North Wales

SIGNS

Gogledd Cymru 

northwalessigns.com | 07766956673

Uned A9, Cibyn Ind Estate, Caernarfon

Arwyddion | Cerbydau | Digwyddiad

Un ennyd fach... Mai 13 Fachwen...

Hen nerthoedd heddiw'n wyrthiol – y ffrwydro
sy'n ffrwydriad oes-oesol,
direidi deri a dól
curiad cariad ein carol.

Gwelais heddiw dros y forfa
gwmwl gwyn, hen hen olygfa...
gŵr a'i eryd' rwyga'r gwanwyn,
gwylain craff y cwmwl claerwyn.


Y wawr, roedd tu hwnt i eiriau – y dydd
megis doe y dechrau
a brig impiad bedw brau
yn nodiant rhyfeddodau.

Mae'r ôl yn erwau'r Clegyr –
ffenomenon byd natur,
daw deunod cog ar draws y llyn,
dau nodyn – un dyddiadur!

Mae'r gwyll yn gollwng gafael
mae wawr o'r drain ar awel,
o'r lle bu injan torri gwair
y sulwair leinw'r gostrel.

Norman Closs

BETHIEL



Llongyfarchiadau i Richard Llwyd Jones am gipio Cadair Eisteddfod Dyffryn Conwy yn ddiweddar. Y dasg oedd cerdd gaeth hyd at 100 llinell ar y testun 'Gobaith'. Roedd saith wedi cystadlu am y Gadair.

Merched y Wawr Bethel I orffen ein tymor cafwyd taith ddigrl i Borth Amlwch ac i'r amgueddfa gopr. Cawsom ein tywys o amgylch a'n diddori gyda hanesion difyr am Amlwch, pan 'roedd y mwynloddio am gopr yn ei fri, gan Elfed Rowlands. Yna swper blasus yng nghlwb golff Porth Llechog. Enillwyd y raffl gan Rhian ac Anwylid.

Diolchodd Mair fel llywydd i bawb a wnaeth y Flwyddyn hon yn un lwyddiannus ac apeliodd am i bawb wneud eu gorau i bysgota am aelodau newydd. Cyflwynwyd tusw o flodau i Anwylid ac i Anita a danfonwyd tusw o flodau a chofion arbennig at Jen. Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith Cwmni Delwedd am ein gwefan raenus ac am ei chadw i ddyddiad. Diolchwyd i Mair fel llywydd gan lywydd y flwyddyn nesaf, sef Gwyneth Jones.

Bydd y tymor nesaf yn dechrau Medi 14eg.

Clwb Bro Bethel. Bu i'r aelodau fwynhau trip i ddiweddu tymor y Clwb a chyrraedd Tweedmill yn Llanellwy am ychydig oriau, a chael cyfle i siopa a thamaid o fwyd. Yna ymlaen i'r Gadeirlan a mwynhau orig dawel yn edrych o gwmpas yr adeilad. Roedd diwedd y daith yn Nhafarn Pen y Bryn uwch ben Bae Colwyn a phawb wedi mwynhau pryd o fwyd blasus cyn troi am adref. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mary Wyn Jones am yr holl drefniadau ac i yrrwr y bws, Tomos, am edrych ar ôl pawb. Bydd gweithgareddau'r Clwb yn ail gychwyn ar Medi 13 am 2.00.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen Sedd Wag, Bethel.

Yn dilyn ein colled fawr o'r diweddar Geraint Elis, mae yna sedd wag ar y cyngor i gynrychioli ardal Bethel.

Tybed oes unrhyw un â diddordeb o wasanaethu fel cynghorydd o ardal Bethel ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Am fwy o fanylion neu wybodaeth pellach, cysylltwch â:

Eleri Bean, Clerc a Swyddog Ariannol

Bwthyn Isaf, Deiniolen LL55 3LS

01286 871757

eleribean@btinternet.com

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche

BOSCH Service

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader 01286 673559

Car Service For everything your car needs.

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYL • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Ysgol Bethel



Dyma wisg chwaraeon newydd yr ysgol. Diolch i Cled a Susan, Post Bethel, aci 'Ffrindiau Ysgol Bethel' am gyfrannu atynt. Edrychwn ymlaen i gystadlu ynddynt. Daeth llwyddiant yn eu hymddangosiad cyntaf yn y twrnament tennis gyda thimau genethod blwyddyn 6 a bechgyn blwyddyn 4 a 6 yn mynd trwyddo i'r rownd derfynol. Llongyfarchiadau mawr.

Cawsom ddiwrnod hyfryd ar gyfer Mabolgampau'r ysgol. Aeth tlws genethod y babanod i Nia Hayes a rhannwyd tlws y bechgyn rhwng Llŷr Arawn Elwyn ac Iestyn Owen. Llongyfarchiadau mawr i'r tri.

Aeth tlws Blwyddyn chwech i Erin Roberts a Cai Moss eleni. Dau sydd wedi cyfrannu

llawer i fywyd chwaraeon yr ysgol yn ystod eu cyfnod yma. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw. Roedd y ddau hefyd yn gapteiniaid y tŷ buddugol sef Garth.

Daeth criw o brifysgol Bangor i gynnal gweithdai Lego 'technocamp' hefo disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6. Cafodd pawb hwyl yn adeiladu eu robotiaid a'u rheoli drwy ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol. Camp a hanner eu cael i daro'r pinnau lawr ar yr amser cywir!

Cynhaliwyd noson e-ddiogelwch i rieni gan aelodau y grŵp e-ddiogelwch a'r heddwas P.C. Dylan. Diolch iddynt am eu cyfraniad i noson lwyddiannus iawn. Cafwyd llawer o wybodaeth am ddiogelu ein plant. Noson o

agoriad llygaid!

Cynhaliwyd wythnos genedlaethol iechyd a ffitrwydd yn yr ysgol. Trefnwyd ymwelwyr i gydweithio gyda'r disgyblion o amryw o sefydliadau ffitrwydd lleol. Cawsom sesiynau gan Glwb Rygbi Caernarfon, PMA Caernarfon, Vibe Fitness-Cibyn a Nathan Craig yn hyfforddi pêl-droed. Uchafbwynt yr wythnos oedd cael cyfle i wyllo gêm hanesyddol Cymru yn erbyn Lloegr. Er i'r canlyniad dawelu'r dathlu roedd yr awyrgylch yn fythgofiadwy pan sgoriodd Gareth Bale a'r plant i gyd yn falch iawn o wisgo eu dillad coch!

Cafodd adran y babanod ymweld â Pili Palas ym mis

Mai er mwyn cychwyn uned o waith ar drychfilod. Cawsom ddiwrnod bendigedig oedd yn llawn hwyl a digon o wybodaeth er mwyn cychwyn ein tasgau ar lawr y dosbarth.

Bu dosbarthiadau Gwyrfai ac Elidir ar daith addysgol i eglwysi lleol yn ystod y tymor. Buont yn ymweld ag Eglwysi Llanddeiniolen a Llanberis. Diolch i'r rector, Carol Roberts am ymuno â ni ar y daith ac am roi arweiniad i'r plant.

Cafodd disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 y cyfle i fynd i Gastell Caernarfon ar gyfer diwrnod Canoloesol. Cafodd bawb ddiwrnod o hwyl gyda llawer o weithgareddau amrywiol ar gyfer y disgyblion.



Plaid Cymru, Enillwyr Clwb Cant Mehefin: 1. Carys Jones; 2. Meryl Green.

Diolchiadau. **Jones, Gareth William (Gaz)** Dymuna Harri, Rose a'r teulu ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd a chefnogaeth a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Gaz, eu mab, brawd ac yncel cariadus. Estynnwn ein diolch i'r Feddygfa yn Llanberis ac Ysbyty Christie, Manceinion. Hyd yma anfonwyd £1,548 o arian rhodd ymlaen i gronfa 'The Christie Sarcoma Research'.

Profedigaethau Yn dawel wedi gwaeledd hir a blin, bu farw Gareth, mab annwyl Harri a Rose, 62 Glanffynnon. Mi fydd colled enfawr i'r teulu, ei rieni, ei chwaer, Tammi a'i frawd, Sam. Hefyd Ben a Harriet sydd wedi colli ewythr hoff a'r teulu i gyd. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â chi oll.

Ar Fai 29ain bu farw Mr John Huw Griffith, Bigil, Ffordd yr Orsaf. Dymunwn anfon ein cydymdeimlad llwyr yn eu profedigaeth at ei wraig Betty a'i fab, John Eilian. Yn frodor o Ddeiniolen roedd yn ŵr tawel ac yn saer maen crefftus. Bydd colled fawr i chi i gyd.

Yn dawel ar ôl gwaeledd hir, bu farw Bessie Jones, gwraig annwyl Billy, 4 Tai Crawia, ar Fehefin y Sed. Bu Bessie yn nyrsio am flynyddoedd cyn i salwch ei gorfodi i ymddeol. Eto, cydymdeimlwn yn arw â Billy, Gareth a Gwilym, Julie a Catrin, a'r plantos bach Dafydd, Elan ac Esme a'r holl deulu yn eich profedigaeth.

Dymunwn anfon ein cydymdeimlad dwysaf at Delyth Tomos, Tan y Cae, Tan y Coed, yn ei phrofedigaeth sydyn iawn yn dilyn marwolaeth ei gŵr, Emyr. Meddwl amdanoch oll fel teulu.

Arholiadau Pob dymuniad da i blant yr ysgolion a'r colegau ar eu arholiadau a'r canlyniadau. Pob lwc i chi i gyd.

Pen-blwydd Arbennig Dymuniadau gorau ar dy ben-blwydd arbennig Hefin, Pant Mwyn. Mwynha y dathlu!

Priodas Pob dymuniad da

ar eu priodas i Gareth Wyn Jones, mab Ann a Celfyn, Nant, Bryniau Fawnog, a Rhian. Maent wedi ymgartrefu yn barod yn Waunfawr. Pob hapusrwydd ichi a'r plant.

Capel y Rhos

Ynystod ymis diwethaf collwyd dau aelod o'r capel, sef Mr John Hugh Griffith, Bigil, Ffordd yr Orsaf, a Mrs Bessie Jones, Gwelafon, Crawia. Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys iawn â'r ddau deulu sydd wedi colli eu hanwyliaid.

Ar Fehefin Sed derbyniwyd Mrs Wena Gordon yn aelod cyflawn o Gapel y Rhos. Braf iawn oedd cael croesawu aelod newydd i'n plith.

Oedfaon y Capel

Gorffennaf

3: Oedfa a Chymun yng ngofal y Gweinidog

10: Parch Megan Williams

17: Y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson

24: Dr Tudor Ellis, Groeslon

31: Miss Elen Jones

Awst

7: Y Parch Cledwyn Williams

14: Cyfarfod Gweddi

21: Parch Elfyn Richards

28: Parch Olwen Williams

Graddio Llongyfarchiadau i Bryn Carwyn Thomas, mab Gareth a Jennifer Thomas, Glanffynnon, ar ennill ei radd M.Sc. Mae'n gweithio fel paramedig i Wasanaeth Betsi Cadwaladr a'r gobaith yw mynd ymlaen i wneud PhD. Pob dymuniad da iddo.

Mae Rhodri Williams, Sŵn y Gwynt, wedi ennill gradd Dosbarth 1af mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor ynghyd â gwobr arbennig i'r myfyriwr gorau yn ei flwyddyn. Pob lwc, Rhodri, wrth fynd am dy radd Meistr a llongyfarchiadau mawr ar dy lwyddiant hyd yma.

Llongyfarchiadau i Cathy ac Arwyn, Glanmoelyn, ar enedigaeth Moi, brawd bach newydd i Cadi, Jac a Magi. Ŵyr bach arall i Nerys a John, Glanffynnon Bungalow.

Hefyd mae Dafydd ac Anwen Owen, Bryn Moelyn yn daid a nain eto. Ganwyd mab bach i Ifan a Jane, sef brawd bach i Moi a gor-ŵyr i Mrs Jennie Owen, Hafan Elan. Llongyfarchiadau i chwithau fel teulu.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Mehefin 14eg, aeth nifer dda o aelodau'r gangen ar ein Trip Blynnyddol. Bu dyfalu mawr i ble roeddem yn mynd a balch iawn oedd pawb fod y man ymweld dan do. Fe fwynhaodd pawb yr ymweliad ag Oriel Rob Piercy ym Mhorthmadog. Mae'r Oriel wedi'i sefydlu ers 1966 gan yr Arlunydd, Rob Piercy, yng nghanol Porthmadog. Lleolir y pedair ystafell arddangos o amgylch cwrt tawel. Addaswyd yr Oriel o hen warws y Bwrdd Dŵr yn 1966. Mae'r Oriel yn arddangos casgliad helaeth o ddyfrlliwiau yn ogystal â detholiad o brintiadau cyfyngedig, argraffiadau a chardiau cyfarchion o'r ardal. Yn nhymor y Pasg a diwedd yr hydref mae gan yr Arlunydd Oriel fach hefyd yn y Gramen ym Mhortmeirion. Mae yma gasgliad unigryw o waith crefft a gemwaith.

Yn 2009 cafodd y fraint o fod yn Arlunydd Cymreig y flwyddyn. Wedi sgwrs ddifyr gan Rob Piercy cafodd pawb gyfle i fwynhau gweld ei waith cywrain a chyfle i brynu printiadau o'r ardal. Diolchwyd iddo am noson i'w chofio.

Bu dyfalu wedyn i ble roeddem yn mynd i giniawa. Ni chawsom ein siomi – bu'r arlwy wrth ddant pob aelod – pawb wedi mwynhau unai dau gwrs neu dri a diolchodd Menna, Llywydd y Gangen, i staff Yr Afr, Glandwyfach a diolchodd hefyd i Meryl a Pat

am y trefniadau trylwyr.

Diolchodd Margaret Parry i Menna am ei llywyddiaeth rhadlon a rhwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Diolchwyd hefyd i'r swyddogion, a Nan yn arbennig, ac aelodau'r pwyllgor am eu gwaith.

Cydymdeimlwyd â Nan ac Ann Lloyd yn eu profedigaethau teuluol.

Llongyferchir Myfanwy ar enedigaeth ei gorywres, Indi Glyn.

Gwyliau hapus i bawb, gwelwn chi nos Fawrth, Medi 12fed, yn y Sefydliad Coffa am 7.30.

Dymuna Betty a John Eilian ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl, John Hugh Griffith, Bigil, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Diolch i'r teulu i gyd a'r cymdogion am eu caredigrwydd.

Diolch i Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri a nyrsys a gofalcwyr yn y gymuned a'r meddygon teulu am eu gofal caredig. Diolch i'r Parchedig Marcus Wyn Robinson am ei wasanaeth a'i eiriau caredig. Diolch am y cardiau a'r arian tuag at Feddygfa Waunfawr a diolch i Meinir a Dylan Griffith am drefniadau gofalus a thrylwyr.

Dalier Sylw

Ni fydd Eco eto gan fis Medi. Newyddion i law os gwelwch yn dda yn Awst. Mwy o wybodaeth ar dudalen 2.



Cymorth Cristnogol Trefnwyd y casgliad eleni gan Mrs Carys Parry, Gwynant. Mae hi am ddiolch i'r casglyddion fu'n mynd o ddrws i ddrws o gwmpas y pentref. Y cyfanswm oedd £1,047.71. Mae plant Ysgol Sul Capel y Rhos wedi gwneud taith gerdded noddedig o'r capel i'r Caban ym Mrynrefail. Bydd eu cyfanswm hwythau yn cael ei ychwanegu maes o law.

Band Llanrug yn gorymdeithio’n fuddugoliaethus



Dyna fu hanes y Band mewn cystadleuaeth yn Y Drenewydd yn ystod y mis diwethaf. Cystadleuaeth orymdeithio a gynhaliwyd yn y dref; math o gystadlu nad yw mor boblogaidd ag yn y dyddiau a fu, a bu’n rhaid cwtogi un eleni oherwydd y glaw. Ond daeth Band Llanrug o’r

gwlybaniaeth gyda pedair gwobr. Roeddent yn fuddugol ar yr emyn a’r orymdaith. Cafodd Owain Llestyn wobwr unawdydd gorau’r cystadleuaeth, a daeth y teitl ‘Band Gorau’r Diwrnod’ iddynt hefyd

Menter cymunedol siop Llanrug er budd amgylchedd leol



Mae staff o siop fwyd y Co-op yn Llanrug gyda chymorth gwirfoddolwyr lleol wedi bod allan yn yn ddiweddar yn glanhau Cae Chwarae Nant y Glyn yn y pentref gyda chymorth menter Trefi Taclus Cyngor Gwynedd. Roedd y fenter gymunedol, a gefnogwyd gydag offer gan Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, yn rhan o ymrwymiad y siop i’r gymuned leol a’r amgylchedd a’r gobaith yw y bydd yn rhan o fenter tymor hir gyda Trefi Taclus. Dywedodd Dirprwy Reolwr Siop Co-op Llanrug, Joanna Jones: “Roedd hi’n dda cynnal gwaith i wella’r amgylchedd leol. Casglwyd 14 o fagiau sbwriel i gyd, yn amrywio o bacedi creision i gôn traffig wedi torri. Mae gwella’r gymuned a’r amgylchedd leol yn bwysig i ni ac felly roeddem yn fwy na hapus i weithio gyda Trefi Taclus Cyngor Gwynedd er mwyn ceisio gwneud gwahaniaeth.” Meddai Charles Wyn Jones, Cyngorydd Lleol Gwynedd: “Rwy’n falch iawn fod Llanrug rwan yn adeiladu ar waith y grŵp a sefydlwyd gan breswylwyr lleol y llynedd i gasglu sbwriel gyda chymorth Trefi Taclus, gyda busnes lleol uchel ei barch yn cymryd rhan yn y fenter ar y cyd. Hoffwn ddiolch i staff y Co-op am eu hymdrechion i lanhau caeau chwarae Nant y Glyn.”



Lluniau yn bennaf

Derbyniais nifer o luniau dros y ddau fis diwethaf, gyda nodiadau ynghlwm – ond mae angen mwy o wybodaeth! Felly, dyma gynnwys rhai o'r lluniau a'r ychydig wybodaeth sydd ar gael. Mae gennych tan ddiwedd Awst i gysylltu a rhoi mymryn o gig am yr esgryn sychion!

Ardal Clwt y Bont.

Wenna Owen, Gainsborough (Wenna Williams, Ty Capel Ysgoldy gynt) anfonodd y tri llun isod, a diolch iddi am gael eu defnyddio. Prin yw'r wybodaeth am y cymeriadau a ddarlunir.



Mae'r llun o dim pel-droed, yn dyddio o ddechrau'r 1920'au. Mae'n amlwg mai yn Neiniolen y tynnwyd y llun, ond nid oedd yr enw wedi ei fabwysiadu'n swyddogol bryd hynny. Felly, beth oedd enw'r tim? Ebenezer, Clwt y Bont neu oedd yna dim yn arddel yr enw Cynfi? Cafwyd enwau dau o'r chwaraewyr. Yn y rhes ganol yn dal y cwpan mae Owen Williams, tad Wenna. Roedd yn cael ei adnabod fel Now Cali (California tybed?). Ond beth yw'r achlysur, a pha gwpan a enillwyd gan y tim di-enw hwn? Yn chweched o'r chwith yn y rhes gefn mae Wenna yn enwi Now King, ond nid yw'n hollol sicr a yw'r wybodaeth yn gywir. Oes rhywun o'r darllenwyr all roi mwy o wybodaeth am y tim, ble roedd eu cae, a phwy oedd y chwaraewyr.

Ysgol Tan y Coed.

Daeth gwybodaeth gan Eiriona Williams, Penisarwaun am luniau Ysgol Tan y Coed, a ymddangosodd yn rhifyn Mai, a diolch iddi am gysylltu.

Llun y dosbarth ar y buarth:

3ydd o'r chwith yn y blaen ydi chwaer Annie Parry, Tŷ'r Ysgol.

Y Sed yn y rhes flaen ydi mam y diweddar Rol Williams, Waunfawr.

Y 6ed ydi Blodwen Jones, (chwaer i nain Eiriona Williams)

Tyddyn Waen. Cafodd ei geni tua 1898. Mudodd i Efrog Newydd

a phriodi â Hugh Jones, Cae Corniog Mawr.Cartrefodd y ddau

yn Denver, Colorado. Ar ôl marwolaeth Hugh fe ymwelodd â

Chymru, 40 mlynedd ar ôl ymfudo

Llun athrawon - 3ydd o'r chwith yn y cefn ydi mam Morgan Evans

(arwerthwr), Waen, Penisarwaun

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



Mae'n amlwg yn dyddio o ddechrau'r ganrif ddiwethaf neu hyd yn oed cyn hynny. Ymddengys mai dosbarth Ysgol Sul Capel Ysgoldy sydd yma, a thybed a'i bocsys cenhadol sy'n cael eu dal gan y plant ym mlaen y llun? Does dim mwy o wybodaeth ar gael. Allwch chi helpu?



1922 yw dyddiad y llun o ddosbarth yn yr hen Ysgol Brynrefail. Mae tad Wenna yn sefyll yn y cefn, y pedwerydd o'r chwith. Does dim enw i unrhyw un arall yn y llun. Mae enw Owen Williams, Clwt y Bont, yn ymddangos yn rhestr y disgyblion a dderbyniwyd i'r ysgol yn 1920 – ond mae 28 o fechgyn eraill ar y rhestr hefyd, a dim ond 16 sydd yn y llun. 22 o enethod a restrir ar gyfer 1920, gyda 13 yn y llun. Dyna gyfanswm o hanner cant yn cychwyn yn yr ysgol, ac mae'n ymddangos iddynt gael eu rhannu'n ddau ddosbarth: 29 yn y dosbarth sy'n y llun, a 21 yn y dosbarth arall. Ond pwy tybed yw'r athrawes? O astudio rhestr athrawesau'r ysgol, gall fod yn unrhyw un o'r canlynol: Elizabeth Williams, Penmaenmawr; Catherine Pritchard Jones, Rhodesia; Jane Ellen Williams, Rock Ferry; Sarah Blodwen Williams; Ellen Hughes, Caernarfon; Margaret Williams, Penygroes neu Gwyneth Harry, America. Yr un yw'r cais eto: anfonwch enwau.



KERFOOTS EST 1874
136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT
Ref:- ECW






Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth
I bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen
neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch
hamddenol.

=====

**DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R
HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP,
NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw
gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)**

=====

www.kerfoots.com enquiries@kerfoots.com
Tel: 01766 512256



Nodau Clustiau Llanberis.

Y mis hwn dyma luniau nodau clustiau rhan isaf plwyf Llanberis. Gyda diolch i Elwyn Searell Jones, Nant Peris am gysylltu i ddangos llyfr nodau clustiau yn ei feddiant – rhai plwyf Llanberis yn bennaf, wrth gwrs, ond yn cynnwys

nodau'r plwyfi cysylltiol hefyd – Llandegai, Capel Curig a Beddgelert. Roedd eu hangen ar gyfer adnabod perchennog ambell i ddafad grwydrol a fyddai wedi dilyn blewyn glas o un dyffryn i'r llall.


Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
E-bost- lisa.huw@btinternet.com

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER
POB
ACHLYSUR

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Llwyddiannau yng nghystadlaethau gwaith cartref Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion sydd wedi cyrraedd y brig yn genedlaethol yng nghystadlaethau gwaith cartref yr Urdd. Rydym yn hynod falch o lwyddiannau'r disgyblion hyn mewn gwaith ysgrifennu creadigol a ffeithiol. Mae hi'n dipyn o gamp bod ymysg buddugwyr trwy Gymru gyfan ond dyna'n union mae'r criw yma o flwyddyn 9, 11 a'r chweched dosbarth wedi llwyddo i'w wneud. Dyma awduron a sgriptwyr y dyfodol!

Twm Herd - blwyddyn 9 – 1af – rhyddiaith bl9

Ceri Griffith - blwyddyn 11 – 2il – rhyddiaith bl10-11

Nia Haf - blwyddyn 13 – 1af – cyfansoddi sgript wreiddiol

Ffion Roberts - blwyddyn 13 – 3ydd – ysgrifennu ysgrif dan 19 oed

Ceinwen Jones - blwyddyn 13 – 3ydd – addasu sgript i'r Gymraeg dan 25 oed

Bydd gwaith y buddugwyr yn cael ei gyhoeddi yng nghyfansoddiadau'r Urdd fydd ar gael ar ddiwedd wythnos yr Eisteddfod.

Diolch yn fawr iawn hefyd i bawb sydd wedi bod yn cefnogi'r disgyblion hyn ac yn eu hannog i gystadlu.



Llongyfarchiadau mawr i Math Roberts
1af yn y gystadleuaeth Unawd Piano.



Llongyfarchiadau mawr i Gwern Brookes
3ydd yn y gystadleuaeth Unawd bechgyn.



Llongyfarchiadau mawr i Lowri Pierce Jones
2il Cystadleuaeth dawns hip-hop/stryd/disco
Bl 10 a dan 19oed.



Llongyfarchiadau mawr Band yr ysgol
3ydd yn y gystadleuaeth Cerddorfa/band
dan 25oed.

Clwb 300 Enillwyr mis Mai oedd: £30: Mrs Mared Llwyd, Cae Rhos; £20: Mrs Alma Jones, Tan y Fron; £10: Mr Neil Adcock, Glan Aber.

Yr Ysgol Feithrin Rydym erbyn hyn yn dod at ddiwedd blwyddyn ysgol arall yn ein hanes a byddwn gyda hyn yn paratoi at flwyddyn arall. Tybed oes rhai ohonoch yn rieni, teidiau a neiniau neu garedigion yr achos, yn barod i ddod i'n cynorthwyo ar y pwyllgor. Diolch o galon ichi am eich cefnogaeth. Cysyllter â Rhodri ar 007748992282 neu Irene ar 01286 650545.

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod o'r Sefydliad ym mis Mehefin cyfeiriodd y Llywydd at Joy oedd wedi syrthio a thorri ei migwrn a dymunodd wellhad buan iddi. Croesawodd hefyd Christine Vacey oedd yno fel ymwelydd. Y wraig wadd am y prynhawn oedd Tanwen Roberts o Manod. Dangosodd beth o'r gwaith hyfryd dros ben yr oedd wedi ei wneud o fotymau, e.e., tusw o flodau ar gyfer y briodferch a blodau twll botwm ar gyfer y priodfab a llawer iawn o fân bethau eraill. Eglurodd sut yr oedd yn eu gwneud a phawb wedi gwirioni a chael cyfle i drïo gwneud yr un peth – heb rhyw lawer o lwc! Crefft hollol wahanol i lawer o'r aelodau ac felly roeddynt yn cymryd diddordeb mawr. Diolchodd Pat iddi am brynhawn difyr iawn. Y cyfarfod nesaf fydd trip i Aberdaron mewn bws hen ffasiwn fydd ein pleser.

Merched y Wawr Chwarae gartre fu ein hanes yn ystod y tri chyfarfod diwedddara. Cawsom noson yng nghwmni'r cerflunydd, Ann Catrin Evans, fu'n dangos sleidiau o'i gwaith anhygoel o gywrair. Nifer helaeth ohonynt wedi cael ei llunio o wahanol fathau o fetalau, megis haeam a chopr a dur. Mae llawer o'i gwaith i'w weld mewn mannau ledled y wlad, gan gynnwys Canolfan y Mileniwm yn ein prifddinas.

Ein gorfodi i grafu'n pennau a defnyddio celloedd yr ymennydd wnaeth ein cwis feistres, Bethan, yn y noson gwis. Tim y criw newydd ifancach gariodd y dydd, neu yng ngeiriau Bethan, y 'new kids on the block'! Noson hwyliog arall, gyda ambell ateb annisgwyl i ambell gwestiwn.

Noson hollol wahanol oedd y noson ar Gymry Lerpwl yng nghwmni Rob Jones. Yn ei ddull hwyliog a chartrefol ei hun cyflwynodd inni ddarlun byw iawn o fywyd yn y ddinas yng nghyfnod ei blentyndod a'i ieuencid. Yn naturiol ddigon roedd y pwyslais mwyaf ar fwrwm y bywyd Cymreig a fodolai yno ac mae Rob ei hun yn dystiolaeth o'r modd y llwyddwyd i gadw'r iaith a'r traddodiadau Cymreig i ffynnu. Yn ystod y rhannu profiadau a ddilynodd sgwrs Rob daeth i'r amlwg gymaint o'r aelodau sydd â chysylltiadau mewn rhyw fodd neu'i gilydd gyda dinas Lerpwl.

Hwn oedd y cyfarfod olaf cyn ein trip diwedd tymor. Croesawodd Irene, y Llywydd, Doris yn ôl i'n plith wedi cyfnod o anhwylder. Cydymdeimlodd â Brenda yn ei phrofedigaeth o golli Iestyn, a llongyfarchodd Heulwen ar ddod yn nain i Luca, mab bach Gerallt a Kerry.

Erbyn i'r rhifyn nesa ddod o'r wasg byddwn wedi ymweld â Phlas Tan y Bwlch i wrando ar sgwrs ddifyr gan Sian Griffiths ar Yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn, a mwynhau bwffe blasus, gobeithio, i gloi'r noson.

Wedi'r egwyl dros yr haf byddwn yn cyfarfod nos Iau, Medi'r 22ain am 7.30 yn Y Ganolfan, pryd y byddwn yn estyn croeso cynnes i'r holl aelodau ac hefyd i aelodau newydd.

Priodas Dydd Sadwrn, Mai 21, yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, priodwyd Elen Jones a Dylan Wyn Owen. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch a phob dymuniad da ichi ar eich priodas. Maent wedi ymgartrefu yn Stad Ael y Bryn.

G e n e d i g a e t h Llongyfarchiadau i Nesta Eluned, Tremnant, ar ddod yn nain i wyres fach arall. Ganwyd merch, Hawus Eilio, i'w mab Berwyn ac Emily. Bydd Mabli wrth ei bodd yn helpu gyda'i chwaer fach.

Pen-blwyddi Arbennig Yn ystod mis Mehefin bu Megan Tomos, Angorfa, yn dathlu cyrraedd ei deunaw oed. Llongyfarchiadau iti a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Roedd Mrs Dunn yn dathlu ei phen-blwydd ym mis Mehefin hefyd, yn 95 mlwydd oed.

Cofion cynnes atoch, Mrs Dunn. Rydym yn falch iawn wic bod adref yn ôl yn y Waun.

Dathlu cyrraedd ei un ar hugain oed fu Shona Morris, Bryn Celyn, Llongyfarchiadau mawr iti, Shona, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Yn ystod mis Gorffennaf bydd Sophie Richards, Stad Tŷ Hen, yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddi hithau.

Bydd Mrs Olwen Owen, Stad Tref Eilian, a Mrs Pat Parry, Ffridd Felen, y ddwy yn dathlu cyrraedd eu pedwar ugain oed yn ystod y mis yma a bydd Mrs Owen, Bryn Gwylan, yn dathlu ei phen-blwydd yn 91 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr i'r tair ohonoch a mwynhewch y dathlu.

APÊL Rydw i wedi bod yn lwcus iawn yn cael cymorth gan y bobl ifanc sydd yn dathlu cyrraedd eu 18 oed yn ystod y flwyddyn. Gofynnaf yn garedig i'r rhai fydd yn dathlu eleni – o fis Mai ymlaen – drefnu rhestr imi o'u cyfoedion a mis eu pen-blwyddi er mwyn inni eich cyfarch yn yr Eco. Diolch yn fawr.

Bedydd Dydd Sul, Mai 22, yn Eglwys y Waun gyda'r Parch Marcus Robinson yn gweinyddu bedyddiwyd Dei John, mab bach Zoe a Sion Greasly, Stad Bod Hyfryd.

Newid Aelwyd Ddiwedd mis Mai gwelwyd fan symud dodrefn o flaen Y Dalar Deg a theulu Margaret yn ei helpu i ymfudo o'i chartref yma yn y Waun. Dymunwn bob hapusrwydd iti yn dy gartref newydd, Margaret, byddwn yn falch o dy weld pan ddoi i ymweld â ni yma. Dymunwn yn dda i'r teulu bach sydd wedi ymgartrefu yn Y Dalar Deg.

Cael ei Holi Yn Papur Dre roedd llun da o Edgar, Glyn Awel, 'Yn y Gadair' o flaen ei siop yng Nghaernarfon yn cael ei holi a ninnau yn cael gwybod ychydig o'i hanes a'i gyfrinachau!

Ymddiswyddo Tristwch i drigolion y pentref oedd darllen yn y papur dyddiol fod Eurig Wyn wedi ymddiswyddo o fod yn Gynghorydd Sir dros y pentref. Diolchwn iddo am weithio drosom am yr holl flynyddoedd.

Yn Gwella Mae'n braf gweld Trefor Beech, Bron Allt, yn gwella a chryfhau wedi iddo dderbyn triniaeth pen-glin yn Ysbyty Gobowen.

Croeso Adref o'r Ysbyty i Mr David Greasly, Min Afon. Hyderwn y bydd yn dal i wella wedi cael dod adref.

Dymunwn wellhad buan i Pat Parry, Ffridd Felen wedi triniaeth i'w garddwrn, ac i Jeanette Burdon wedi ei thriniaeth hithau yn yr ysbyty.

Diolch Dymuna Brenda, Iolo ac Eurig, Tŷ Ni, ddiolch o galon i bawb am bob cefnogaeth a charedigrwydd yn ystod eu profedigaeth o golli Iestyn.

Casgliad Cymorth Cristnogol Fore Sul, Mehefin 5, yn ystod y gwasanaeth yn Eglwys y Waun cyhoeddwyd fod y swm a gasglwyd yn y Waun yn £595.57 ceiniog. Diolchwyd i'r cyfranwyr a phawb a fu'n cymryd rhan yn yr ymgyrch.

Hefyd darllenwyd neges oddi wrth Ann Jones (Heulfryn gynt) yn diolch am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei thad. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Ann a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â theulu Rhif 3 Stad Glyn Afon yn eu profedigaeth o golli mam Evan a nain annwyl i'r hogia.

Yn frawychus o sydyn yn ei gartref, Fferm Cae Main, bu farw Edward Vaughan Hughes. Cydymdeimlwn â'r teulu a'i ffrindiau yn eu profedigaeth.

Yn dawel bu farw Mrs Wena Edwards, Groeslon Isa. Anfonwn ein cydymdeimlad at Delyth a Deilwen a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iddynt.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Gorffennaf

3: Parch Fred Hughes

10: Parch Dewi Jones

17: Dr Gwyn Lewis

24: Cyfarfod Gweddi

31: Mrs Nerys Griffiths

Mis Awst – cael ymuno gyda aelodau Capel Seilo.

Gwyliau'r Haf Daw rhifyn nesaf yr Eco o'r wasg ddiwedd mis Awst. Dymunwn wyliau haf da i bawb. Cymerwch ofal.

Cronfa'r Pensiynwyr-Enillydd y bêl bonws mis Mai oedd Mr Peter Jeavons gyda rhif 59, Llongyfarchion.

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Llongyfarchiadau mawr i'r parti Ensemble Offerynnol sef, Efa, Mabli, Lauren a Branwen ar eu llwyddiant ysgubol yn derbyn y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint. Rydym yn falch iawn ohonynt yn yr ysgol, gyda diolch yn fawr i Mrs Yvonne Clarke am eu hyfforddi.



Dydd Mercher Mehefin 7fed cafwyd ymweliad gan PC Dylan Pritchard. Bu'n sgwrsio gyda'r dosbarthiadau yn eu tro ynglŷn â diogelwch a diogelwch defnyddio'r WE. Diolch iddo am alw yma yn rheolaidd.

Ymweliadau â Galeri, Caernarfon - Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen gyfle i ymweld â Galeri yng Nghaernarfon bnawn dydd Iau, Mehefin 9fed. Roedd Cwmni Arad Goch yno yn cyflwyno sioe "Diwrnod Hyfryd Sali Mali". Cafodd pawb andros o hwyl yn gwylio'r perfformiad gwych yma, a phawb yn ymddwyn yn arbennig o dda.

Sioe Roald Dahl - Croesawyd Tudur o Gwmni "Mewn Cymeriad" yma bore Gwener, Mehefin 10fed, i gyflwyno sioe fywiog iawn am gymeriadau Roald Dahl i blant CA2. Roedd pawb wedi cael hwyl a mwynhau'r sioe arbennig yma.

Diwrnod dathlu diwylliant - Trefnwyd diwrnod arbennig dydd, Iau Mehefin 16eg, cafwyd pawb gyfle i wisgo dillad Cymreig, profiad o ddawnsio gwerin, a dysgu a chanu'r Anthem Genedlaethol. Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen wneud baneri Cymru. Uchafbwynt y diwrnod oedd cael y cyfle i wyllo gêm bêl-droed Cymru a Lloegr!

Ffarwelio -Trefnwyd parti bnawn dydd Gwener, Mehefin 17eg, i ffarwelio gyda Mr Ifan Hughes sydd wedi bod yn Fyfyriwr yn yr ysgol o Brifysgol Bangor. Diolchwyd iddo am ei ymroddiad yn ystod ei gyfnod yma, a dymunwn y gorau iddo yn ei swydd gyntaf fel athro ym mis Medi.

Ymweld â'r Ysgol Uwchradd - Cafodd Bl 6 gyfle i fynd ar eu hail ymweliad ac Ysgol Brynrefail dydd Iau, Mehefin 30ain. Dymunwn y gorau i Harri, Morgan, Ethan, Joel, Efa, Mabli ac Elin, pan fyddant yn cychwyn eu haddysg yno ym Mis Medi.

Symud Dosbarthiadau - Roedd Dydd Iau, Mehefin 30ain, yn ddiwrnod prysur iawn yn yr Ysgol. Cafodd pawb gyfle i symud i fyny i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal gwahoddwyd y plant a fydd yn mynychu'r Ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth meithrin yma am y bore. Gobeithio y bydd pawb yn mwynhau'r profiadau yma yn fawr iawn.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen -Cynhelir Cymanfa Ganu i agor gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys Nos Sul 3/7/16 am 6:30 o'r gloch. Bydd aelodau o Gôr Dinas Bangor gyda'i harweinydd, Mrs Lowri Prys Roberts, yn bresennol. Yn ogystal bydd cyfle i fwynhau eitemau gan blant yr Ysgol yn ystod y noson, a gwerthfawrogn eich cefnogaeth.

Mabolgampau - Gobeithir cynnal y mabolgampau bnawn dydd Llun, Gorffennaf 11eg, am 1:30 o'r gloch os bydd y tywydd yn caniatáu. Croeso cynnes i bawb ddod draw i gefnogi'r plant. (Gorffennaf 9 a 16 fel dyddiadau wrth gefn os na fydd y tywydd yn caniatáu) Mae'r "Cyfeillion" wedi trefnu gwahanol bethau i godi arian i'r ysgol yn ystod y pnawn. Bydd cyfle i brynu raffl a diodydd ffrwythau ayyb, felly cofiwch bod croeso mawr i chwi yma a gwerthfawrogn eich cefnogaeth i'r ysgol.

Tripiau diwedd Tymor yr Haf - Dydd Mawrth, Gorffennaf 12fed, bydd Dosbarthiadau derbyn, 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn mynd i Gelli Gyffwrdd am y diwrnod. Gobeithiwn am dywydd braf!

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr yw: 1. Caryl Griffith, Ysgubor, Cae Corniog; 2. Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt.

Enillwyr mis Gorffennaf yw: 1. Y Cynghorydd Hefin Williams, Rhiwlas; 2. George Herd, Cartref.

Llongyfarchiadau i Myfanwy a Dic ar enedigaeth eu gor-wyres, Indi Glyn, merch fach i Cadi a'i chymar ac wyres i Ffion ac Eifion, Llanrug.

Ysgol Sul Bosra Fore Sul, Mehefin 5ed, cafwyd aelodau'r Ysgol Sul gyfle i gymryd rhan ym medydd Nanw Grug, merch fach Cenin ac Aled. Gwasanaethwyd gan y Parch Marcus Wyn Robinson. Eglurwyd yn fanwl wrth y plant beth yw gwir ystyr bedyddio ac roedd Nanw yn amlwg yn mwynhau'r sylw ac yn berffaith gysurus ym mreichiau'r gweinidog.

Canwyd 'Calon Lân' ac 'Iesu Tirion' gydag arddeliad gan y gynulleidfa gref o aelodau'r teulu a ffrindiau. Dymunir diolch i'r teulu am gael bod yn rhan o'r achlysur ac anfonir ein dymuniadau gorau i Nanw Grug i'r dyfodol.

Anfonwn ein cofion anwylaf at Mr Evie Jones, sydd bellach yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon, y Felinheli.

Llongyferchir Twm Herd, cyn-aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul, ar ei lwyddiant ysgrifenedig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol, Twm.

Oherwydd prysurdeb yn y pentref ni chynhelir Ysgol Sul tan Medi 11eg, gan obeithio y ceir yr un gefnogaeth eto.

Gwellhad Anfonir ein dymuniadau gorau i Osian Dafydd (Sycharth gynt) wedi triniaeth i'w galon yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl. Da deall ei fod ef a'i frawd, Bedwyr, yn gwella erbyn hyn. Iechyd da i'r ddau ohonoch gan mam a dad, Lisa, Sara, Gwydion, Leah ac Eurgain Haf a'r teulu.

Eisteddfod Bentref 2016 Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, Gorffennaf 1af, gan obeithio y cawn yr un gefnogaeth gref â llynedd. Dymuna'r pwyllgor longyfarch 'Ensemble Offerynnol' y enethod am gipio'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a da iawn Twm a'r rhai ohonoch oedd yn rhan o gystadlaethau Ysgol Brynrefail. Yn amlwg mae cystadlu ar lwyfan ein eisteddfodau pentref yn dangos ffrwyth. Daliwch ati! Bydd canlyniadau'r Eisteddfod yn y rhifyn nesaf - ddiwedd Awst.

Llongyfarchiadau mawr i ti Elin Prysor, Careb, 8 Bryn Eglwys, ar ennill Ysgoloriaeth gan 'Scottish Power' i astudio 'Energy Management' ym Mhrifysgol Strathclyde, yr Alban, ym mis Medi. Ardderchog wir!

Llwyddiant yn Rhedeg Mynydd Nos Fawrth, cafwyd merched yr ysgol lwyddiant yn Rasys Mynydd Joe Brown. Enillodd Georgia Parkinson y ras dan 12 oed gyda Abbi yn ail, y ddwy ym mlwyddyn 7 Ysgol Brynrefail ond cyn hynny ym Mhenisarwaun. Hefyd gwnaeth y teulu Baines yn wych gyda Efa yn drydydd dan 12 oed, a'i hefaill, Mabli, yn bedwerydd - cafwyd hi hefyd wobwr Alan Vaughan am ymdrech arbennig. Daeth y chwaer ieuengaf, Olwen, yn ail yn y ras dan 8 oed. Canlyniad ardderchog i Ysgol Penisarwaun.

Gŵyl Deiniolen.



Cafwyd wythnos o weithgareddau i ddathlu'r Wyl. Dyma amrywiaeth o luniau sy'n dangos fod pawb wedi mwynhau.

Llwyddiant Seindorf Ieuenctid Deiniolen



Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn i Fand Ieuenctid Deiniolen yn ddiweddar. Ar ddydd Gwener, 20fed o Fai, cystadlodd y Band yng nghystadleuaeth enwog y "Whit Friday Marches" a hynny am y tro cyntaf erioed. Bu'r band yn cystadlu mewn pum pentref gwahanol o dan arweiniad Osian Tomos yn ardaloedd Saddleworth a Tameside. Cafwyd canlyniadau teilwng mewn sawl pentref ac yn y pentref olaf, sef cae pêl droed Ashton United, cipiodd y band yr ail wobwr am y band ieuenctid gorau ar y noson. Braff oedd cael llond bws o gefnogwyr, teuluoedd a ffrindiau i fwynhau'r achlysur arbennig yma.

Yna ar ddydd Sul, 12fed o Fehefin, bu'r Ieuenctid yn cystadlu mewn cystadleuaeth awyr agored i Fandiau Pres yn y Drenewydd. Roedd naw band yn cystadlu a chipiodd y Band Ieuenctid, y wobwr am y band ieuenctid gorau ar y diwrnod a hynny am y drydedd flwyddyn yn olynol. Yn ychwanegol eleni cipiodd y band y wobwr gyntaf am y band ieuenctid gorau am orymdeithio. Derbyniodd y

Seindorf Ieuenctid ganmoliaeth uchel gan y beirniad Gary Davies am eu rhaglen.

Roedd 35 o aelodau yn y band ac roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr. Hoffai Osian ddiolch yn fawr iawn i'r holl aelodau am eu gwaith caled cyn y gystadleuaeth, i bawb oedd wedi cynorthwyo i hyfforddi'r band a'r rhai fu'n gyfrifol am y gwaith trefnu. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn ogystal i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am y rhodd garedig tuag at gostau'r bws. Roedd llond bws unwaith eto o deulu a ffrindiau wedi teithio i gefnogi'r ieuenctid.

Nesaf bydd y band ieuenctid yn cychwyn ymarfer tuag at Bencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru fydd yn cael ei chynnal mis Tachwedd yn Rhuthun. Llongyfarchiadau mawr i'r band ar eu llwyddiant eto eleni. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno â'r band ieuenctid neu'r band iau yn Neiniolen yna cysylltwch ag Osian ar 07717055639.

Cymorth Cristnogol
Cyfanswm y casgliad eleni oedd £900. Diolch i bawb a fu'n casglu o ddrws i ddrws, ac i bawb a gyfrannodd yn anrhydeddus.

Dymuna Glenys a Mary a theulu y ddiweddar Morfudd Jones, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ei profedigaeth. Hefyd am y swm hael o £425 at Ysgol Pendalar.

Darllen Mawr Direidus Mae llyfrgelloedd ym mhobman yn dathlu 100 mlwyddiant Roald Dahl eleni gyda'r Darllen mawr Direidus, Sialens Ddarllen Haf 2016 a fydd yn cychwyn yn swyddogol ar fore Sadwrn, 16eg Gorffennaf ac yn parhau tan ddechrau Medi. Ymunwch â Llyfrgell Deiniolen i gael ffolder yn rhad ac am ddim i gadw'ch casgliad o gardiau arbennig, ymwelwch â'r llyfrgell deirgwaith dros wyliau'r haf a benthycwch dri llyfr o'ch dewis bob tro. Cofiwch fod eich llyfrgell

leol yno er mwyn i'ch plant gael darllen y llyfrau newydd diweddaraf – yn straeon, nofelau, llyfrau jòcs a llyfrau am eu hoff ddiddordebau. Ac mae llyfrau Roald Dahl gennym yn Gymraeg a Saesneg gyda chyfle i'ch plant ddod i nabod y Cawr Mawr Mwyn, y Crocodeil Anferthol a'r Twits, i enwi ond ychydig!

Bydd pob plentyn yn derbyn tystysgrif a medal os llwyddant i gwblhau'r sialens ac ymweld â'u llyfrgell dair gwaith dros yr haf! Mae'n dipyn o her ceisio cadw plant yn ddiddig a heb ddiiflasu yn ystod gwyliau hir yr haf, felly beth amdani? Cymerodd dros 2,700 o blant Gwynedd ran yn sialens y llynedd felly y cyntaf i'r felin piau hi. Ewch draw i'ch llyfrgell leol i gychwyn eich Sialens Ddarllen haf ac i ddarganfod y stôr o lyfrau a straeon difyr a chyffrous sy'n eich aros!

Oriau Agor Deiniolen
Dydd Llun: 3.00 – 6.00
Mercher: 2.00 – 5.00
Gwener: 10.00 – 12.00

CWMY GLO

Cydymdeimlad Wedi gwaeledd bu farw Glyn Roberts yn 68 mlwydd oed. Roedd Glyn yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Roberts, Bodwyn, ac yn frawd ieuengaf i Nan, Carys a'r diweddar Gareth. Yn rhinwedd ei swydd trigodd Glyn am flynyddoedd yng nghymoedd y de. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Mrs Menai Phillips, Gwynedd, Hefin, Sue a Nancy yn Y Groeslon yn eu profedigaeth o golli priod, tad a brawd annwyl a charedig, sef Edwin John Phillips. Roedd Edwin (Edwin Crosville) yn fab i'r diweddar Mr a Mrs John Phillips, Pant Afon.

u mab, Macsen Hedd Hamer, ar y 27ain o Ebrill. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am eu cyfarchion a'r anrhegion.

Llongyfarchiadau i Carys a Dafydd Hamer, Bron Hafod, Ceunant, a hefyd i Karen a Harri ar ddod yn nain ac yn daid.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y Fflint Llongyfarchiadau mawr i blant Caeathro oedd yn rhan o Gân Actol Ysgol Bontnewydd ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth hon yn yr eisteddfod yn ddiweddar. Yr oedd Anna Celyn, Erw Wen; Begw, Cefn Gof; Luned, Bryn Mair a Mari, Glanrafan Bach i gyd wedi gwirioni wrth lwyddo i ddod yn gyntaf allan o bedwar ar ddeg o ganeuon actol a ymddangosodd ar lwyfan yr eisteddfod ar y nos Lun. Llongyfarchiadau hefyd i Luned oedd yn aelod o fand Ysgol Bontnewydd a enillodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth bandiau / cerddorfa ysgolion cynradd.

Da iawn chi hefyd holl blant hŷn Caeathro sy'n aelodau o Fand Ysgol Syr Hugh Owen ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y bandiau ar gyfer ysgolion uwchradd ar nos Wener yr eisteddfod.

Eisteddfod Bontnewydd Cafodd nifer o blant y pentref hwyl ar gystadlu yn Eisteddfod Bontnewydd ar ddydd Sadwrn, Mehefin 11eg. Cafodd Tomos, Erw Wen, gyntaf am lefaru blwyddyn 1 a'i chwaer Anna Celyn yn drydydd hefo'r unawd a'r llefaru ar gyfer blwyddyn 2 ac yn drydydd am ganu cerdd dant o dan 12 oed. Cafodd Luned, Bryn Mair, gyntaf yng nghystadleuaeth yr unawd offerynnol ym mlwyddyn 5. Cyntaf hefyd oedd Malan, Cefn Gof, ar yr unawd piano ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9. Roedd Malan hefyd yn ogystal â Siôn Ynyr, Glandŵr, yn aelodau o'r ensemble offerynnol oedran uwchradd ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth honno.

Prifysgolion Llongyfarchiadau mawr i Betsan Ceiriog sydd wedi ennill lle yn ddiweddar ar gwrs perfformio Coleg y Drindod ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd yn cychwyn ar y cwrs arbennig yma ym mis Medi. Mynd i Brifysgol Bangor fydd Osian Eryl bryd hynny gan ei fod wedi ennill ysgoloriaeth ar gyfer dilyn cwrs mewn Astudiaethau Busnes yno. Mae'r ddau ohonynt ar ganol eu harholiadau lefel A ar hyn o bryd.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i John Jones, Garreg Lwyd, ar ddod yn daid i ferch fach yn Sydney, Awstralia. Ganwyd Jinnika Lily Piper Petrie i ferch John a'i gŵr, sef Ffion a Graham Petrie, ar Fai 30ain, a deallwn fod John a'i wyres fach yn rhannu'r un dyddiad pen-blwydd ac yn medru gweld ei gilydd ar Skype o bryd i bryd!

Gwasanaethau y Capel.

Gorff 3ydd am 2.00p.m.: Oedfa deuluol a chymunedol dan ofal y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson.

Am 3.00 cynhelir Cyfarfod Swyddogion.

Gorff 17eg am 2.00 p.m.: Gwasanaethir gan Mr Dafydd Iwan.


Llywydd y mis fydd Deiniol Hughes gyda Iona Ceiriog wrth yr organ.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddwrch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Dymuna Glenys a Mary a theulu y ddiweddar Morfudd Jones, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ei profedigaeth. Hefyd am y swm hael o £425 at Ysgol Pendalar.

Adref o'r Ysbyty Da yw deall fod Mr Ray Bower, Tan y Marian wedi cael dod adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl derbyn llawdriniaeth. Hyderwn y bydd yn dal i wella ac y bydd y tywydd yn gwella hefyd ac y cawn ei weld allan yn lled fuan yn ei hwyliau gorau fel arfer.

Marwolaeth Unwaith eto y mis yma mae galar a hiraeth ar aelwydydd y Cymry yn yr ardal gyda dau arall o blant yr ardal wedi'n gadael. Bu farw John Hugh Griffith, Bigil, Ffordd yr Orsaf, Llanrug yn 81 mlwydd oed ar 29 o Fai yn yr ysbyty. Ganwyd John yn Bigil, Dinorwig, yn fab i Mr a Mrs John Griffiths ac yn frawd annwyl i Thomas Elwyn. Cafodd ei addysg yn ysgol bach Dinorwig ac yna pan yn un ar ddeg oed aeth i ysgol Higher Grade, Caernarfon.

Pan ddaeth yn amser iddo adael yr ysgol aeth yn brentis adeiladwr hefo'i dad. Bu'r ddau yn gweithio hefo'i gilydd hyd nes i bu i'w dad ymddeol.

Mae'n rhaid dweud fod eu gwaith yn werth ei weld a pan yn gweithio nid oedd amser i'w wastraffu. Gan fod y ddau o'r un naws, ar rai amseroedd byddai yn dymhestlog iawn rhyngddynt.

Bu ei angladd yn gyhoeddus yn Amlogsgfa Bangor brynhawn Mawrth, 1 Mehefin gyda'r gwasanaeth yng ngofal y Parch Marcus Robinson a'r Parch Aled Davies, Chwilog.

Cydymdeimlwn yn fawr hefo Betty, ei wraig, a'i unig fab, John Eilian, ei frawd Thomas Elwyn a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth a gobeithio y cewch nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma.

Marwolaeth Un arall o blant yr ardal a gollwyd yn ystod y mis oedd Ralph Lewis yn 81 mlwydd oed. Bu farw ar 7 Mehefin. Cafodd Ralph ei addysg cynnar yn ysgol bach Dinorwig ac wedyn yn ysgol Higher Grade Caernarfon. Fe'i ganwyd yn Tan y Giarat, sef y tŷ uchaf yng Nghymru, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs J. Lewis ac yn frawd i'r Parchedig William John Lewis, Eluned, Goronwy, Alun a'r diweddar Harry. Bu iddynt symud i Hafod y Braich ac yno y ganwyd Alun.

Ar ôl gadael yr ysgol aeth i weithio i'r chwarel. Beth amser

ar ôl hyn bu iddo briodi hefo Laura o Fangor a ganwyd iddynt dri o fechgyn, sef Alan, Melfyn a'r diweddar Geraint. Colled fawr iawn oedd iddynt golli Geraint mor sydyn.

Cofiaf yn dda pan oedd Ralph yn ysgol Dinorwig iddo fynd i ddwyn eirin i'r pant ar amser cinio a dod yn ei ôl yn waed i gyd, wedi brifo wrth ddringo. Gan fy mod yn iau na Ralph cofiaf fynd adref a dweud wrth mam beth oedd wedi digwydd iddo a'i hateb i mi oedd: 'Dyna beth sydd i'w gael am fynd i ddwyn'. Gallaf ddweud â llaw ar fy nghalon na fu imi feddwl am ddwyn eirin, yr oeddwn wedi dysgu fy ngwers.

Bu ei angladd ar 16 o Fehefin yn Berea Newydd, Bangor gyda'r gwasanaeth yng ngofal y Parch Eric Jones ac yna yn gyhoeddus yn yr Amlogsgfa. Bu farw yn Bryn Seiont Newydd, Caernarfon, lle yn ôl y teulu, y cafodd ofal ardderchog a charedigrwydd mawr.

Meddwl llawer am ei frodyr a'i chwaer, Eluned, gan fod William John ac Eluned dros eu nawdegau. Gobeithio y cewch fel teulu nerth ac iechyd i ddal y golled ac y gallwch fel brodyr a chwaer gofio am yr amseroedd gorau, ac wrth edrych yn ôl gofio am lawer tro

trwstan hefo gwên.

Ralph, rwyf wedi cael mynd adref at dy dad a dy fam o dy boenau i gyd, a gwyn dy fydd.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 101 yn ystod y mis ym Mhlas Garnedd, Llanberis, lle y mae yn cartrefu. Ymlaen yn awr, Mrs Morris, am y 102. Dymunwn fel ardal Ben-blwydd Hapus iawn i chwi. Pob bendith ac iechyd a diolch i Eurwyn a Marsli am fod mor ofalus ohonoch.

Arholiadau Mae yn anodd credu fod tymor yr arholiadau wedi dirwyn i ben a bod tymor yr haf wedi cyrraedd. Mae'r flwyddyn yma yn mynd fel y gwynt eto a'r gog wedi ymadael â ni tan Ebrill nesaf. Carem fel ardal ddymuno yn dda i bawb sydd wedi eistedd yr arholiadau a gobeithio am ganlyniadau da i chi i gyd ac y byddwch yn gallu mynd ymlaen â'ch addysg fel ag yr oeddych wedi edrych ymlaen i wneud. Dymuniadau gorau a phob lwc i chi i gyd.

Cofion Mae Mrs Margaret Cynfi Griffith yn Ysbyty Eryri ers rhai dyddiau. Anfonwn ein cofion gorau ati a brysiwch wella. Mae eich lle yn y capel yn wag. Pob dymuniad da, Margaret.

Grwpiau trafod hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal grwpiau trafod er mwyn gwella'i dealltwriaeth o anghenion a dyheadau defnyddwyr y Gymraeg.

Dymagylle chileisio'ch barn ynghylch y gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg rydych yn eu defnyddio. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'ch profiadau yn ei gwaith rheoleiddio - hynny yw, sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio â'u dyletswyddau o ran y Gymraeg.

Mae'r Comisiynydd eisiau clywed safbwynt amrywiaeth o bobl. Does dim angen bod yn arbenigwr, na theimlo'n hyderus wrth ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Caiff pawb yn y grŵp eu hannog i rannu eu profiadau a'u barn mor onest â phosib.

Dyma'r lleoliadau a'r amseroedd:

- Galeri, Caernarfon, 7 Gorffennaf 2016, 12:30–14:00

Caiff y sesiynau eu cynnal yn Gymraeg, a bydd cinio ar gael.


Am ragor o fanylion neu i gofrestru, ewch i wefan y Comisiynydd.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI
<http://dioni.co.uk>
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

LLANBERIS

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740



Cyfeillion Plas Pengwaith

Enillydd y Bel Bonws am fis Mai oedd Edwyn Roberts.

Digwyddiadau'r haf yn eglwys Sant Padarn Llanberis.

16 Gorffennaf: Gŵyl Flodau – Eglwys ar agor am yr wythnos am banad a theisen.

23 Gorffennaf: Te mefus yn yr eglwys

20 Awst: Te Cymreig yn yr eglwys.

Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Dolbadarn.

Lluniau o weithgareddau gwahanol ddosbarthiadau dros y mis diwethaf, yn cyfeiriannu ac yn mwynhau teithiau cerdded.



ORIEL CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

PRISIAU RHESYMOL

Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs- (01286) 870882

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

GEIR CYMRU

Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN

01248-671770/670451

Hyn ac Arall

Eryri? Ai magwrfeydd eryrod? Darllenwch hyd synnu!

Yn Eco'r Wyddfa mis diwethaf dyfynnais fel a ganlyn:

Tŵr eryr, tŷ yr eira...

Dywedais hefyd mai Penfro ydoedd awdur yr englyn sy'n clodfodi'r Wyddfa. Rhyw ychydig, llond llaw o fanylion rwan ynghylch Penfro. Ei enw iawn ydoedd Wiliam John Morgan (1846-1918). Ceir ei hanes yn gryno gan yr hanesydd a'r llenor R.T. Jenkins yn Y Bywgraffiadur Cymreig 1941-1950. Atodiad (1970): clerigwr, eisteddfodwr ac emynydd: ganed yn Nyfer, sir Benfro; ordeiniwyd ef yn 1871 (yr hen Eglwys Loegar) a thrwyddedwyd ef yn gurad Llanrwst, lle y daeth i gysylltiad agos nid yn unig â'r englynwr enwog, Trebor Mai ... ond hefyd â'r gŵr hynod hwnnw, Gwilym Cowlyd... a dyma'r cyfnod yn ei hanes pryd y cefnogai'r gŵr o sir Benfro eisteddfodau Gwilym Cowlyd ar lannau llyn Geirionnydd, (os na fuoch chwi erioed yno – yna ewch!)

Pam rydw i'n sôn am yr eryr y tro hwn? Eryri wedyn, a mynydd sy'n rhan o fynyddoedd Eryri ydi'r Wyddfa. Y mae hynny'n dra-wybyddus i bawb, ond nid pawb chwaith fel y digwyddodd hefo dewis Hafod Eryri fel yr enw ar y ganolfan newydd a ddisodlai'r hen enw ar y ciaffi bychan del hwnnw, ger copa'r Wyddfa, a arferai fod yn fangre hynod o dda i hel iddo am baneidiau, sgysiau a ballu, ac yn gwasanaethu dyn ac anifail, hyd yn oed eraill o fyd natur, fel cyrchfan ddihafal ar gyfer crwydriaid mynyddig!

Aderyn rheibus mawr o dylwyth y gweilch (a gyfenwir yn frenin yr adar) sy'n hynod am graffter ei olygon, uchder ei ehediad a chryfder ei ylfen a'i grafangau llymion i ladd a chludo ei ysglyfaeth, hefyd yn ffigwrol mewn daroganau, chwedloniaeth,

llên apocalyptaidd... ydyw'r disgrifiad a geir o'r eryr yn Geiriadur Prifysgol Cymru (1) (1950-2002) 1240, ond ceir hefyd am eryri esboniad arall, sef: aderyn, mynydd, glan, codiad tir, trum, bro, ymyl, goror.

Ai'r eryr a roddodd yr enw Eryri inni, neu ai lwmpyn tebol o gelwydd (mynydd yn wir!) ydi hynny? Yn ei golofn Byd Natur yn Y Cymro Mawrth 3ydd (1954) y mae T.G. Walker (1900-1984) yn datgan:

Adar prin iawn yw'r eryrod. Tri math sydd... sef yr Eryr Mannog, yr Eryr Melyn a'r Eryr Tinwyn... Arferai'r Eryr Melyn nythu yng Nghymru ers talwm, a dyna mae'n debyg sy'n cyfrif am yr enw Eryri... 'Eyrie' yw'r enw Saesneg am nyth aderyn ysglyfaethus. Ar hyn o bryd, yn yr Alban yn unig y nytha'r Eryr Melyn, mewn mannau diarffordd a gogleddol o'r wlad ac yn uchel i fyny ar lechweddau'r mynyddoedd. Y mae'r adarydd o Fôn yn cyfaddef ynghylch yr Eryr Melyn yn yr Alban mai anghyffredin ydyw yno... a'r aderyn yn awr wedi ei osod ar restr yr adar nad oes wiw eu saethu, a hynny er mwyn cadw'r rhywogaeth rhag darfod yn llwyr. Ond ai dychymyg rhonc Penfro ydoedd galw'r Wyddfa'n tŵr eryr, tŷ yr eira? Nid af i fanylu! Y mae eraill ym myd adarydda, llawer mwy gwybodus na fi, all fy ateb! Gadawaf chwi'r mis hwn hefo digwyddiad yn y flwyddyn 1956, sef gweld eryr euraidd yn rhan ucha Dyffryn Conwy. A oedd yr aderyn dan sylw'n ymgymryd ag un o'i ymweliadau prin â'r Wyddfa a mynyddoedd Eryri? Ys gwn i? Ie! Ys gwn i'n wir!

Dafydd Guto Ifan

Gŵyl Darganfod Menter Fachwen

Digwyddiadau a Theithiau Cerdded i gyd yn cychwyn yn siop a Chanolfan Gerdded a Darganfod Menter Fachwen yn Tŷ Caxton, Stryd Fawr, Llanberis (heblaw teithiau cerdded 8fed a 24ain Gorffennaf)

Lein archebu: 07867 810576 (ar ôl 1af Gorffennaf)
Sul, 3 Gorffennaf am 10.00 yb

Taith gerdded a picnic: Nant Peris a Chwarel Dinorwig (6 milltir)

Bryniog gyda llwybrau anwastad, yn cynnwys y 'Zig-Zags'.

Mercher, 6 Gorffennaf am 7.30yh

Sgwrs: Darganfyddiadau cynllun cerdded a darganfod Menter Fachwen (tua awr): £2. Angen archebu.

Gwener, 8 Gorffennaf am 1.30 yp

Taith gerdded 'Mystery Walk' tua 3 milltir. Cychwyn: Eglwys Penisarwaun, llwybrau anwastad a chamfa serth i'w dringo – ond hwyl!

Mawrth, 12 Gorffennaf

Arddangosfa gwaith celf Ysgol Brynrefail (tan diwedd Awst)

Mercher, 20 Gorffennaf

1.30yp: Sgwrs, Tynnu Lluniau yn y Nos, gan Gareth Roberts. Angen archebu. £2.

7.00yh: Sgwrs, O'r Neolithic i'r Oesoedd Canol, gan Martin Davies. Hwyl, sleidiau ac ambell ffilm yn darganfod ein hanes. Angen archebu. £2.

Gwener, 22 Gorffennaf am 4.00yp

Taith gerdded o amgylch Llyn Padarn (4 milltir a hanner ar dir gwastad yn cynnwys ar hyd Rheilffordd Padarn). Dewch â brechdan. Lle i 25. Angen archebu.

Sul, 24 Gorffennaf

Sialens Oes Haearn yr Ŵyl. Taith gerdded i ddau dîm i godi arian i Menter Fachwen. Enwau i Gareth.

Llun, 25 Gorffennaf

Dyddiad cau yr Helfa Drysor Ffotograffau.

Mercher, 27 Gorffennaf o 1.30 a thrwy'r pnawn

Sioe ac arddangosfeydd hen luniau a ffilmiau bro Eco'r Wyddfa ac atebion yr 'Helfa Drysor Hen Luniau'.

7.00: Sgwrs: O'r Neolithic i'r Oesoedd Canol gan Martin Davies. Angen archebu. £2.

Ffoniwch Gareth Roberts ar 07867 810576 am ragor o wybodaeth.

Dim mwy o beilonau yn Arfon



Mae Aelod Seneddol Plaid Cymru, Arfon Hywel Williams, a'r Aelod Cynulliad Siân Gwenllïan, yn galw ar y Grid Cenedlaethol i gadw etholaeth Arfon yn rhydd o unrhyw beilonau newydd, wrth i gwmni'r Grid Cenedlaethol gyflwyno cynllun i gysylltu cebl tanfor o dan y Fenai ag is-orsaf newydd ym Mhentir.

Mae Hywel Williams AS a Siân Gwenllïan AC, a fu'n arwain yr ymgyrch i warchod y Fenai rhag cynllun i godi coridor o beilonau, eisiau gweld y llwybr 2 cilomedr sy'n weddill o Nant y Garth i Bentir yn cael ei danddaearu. Rhyddhawyd datganiad ganddynt yn dweud: "Roedd sicrhau nad oedd peilonau yn cael eu gosod ar draws y Fenai yn fuddugoliaeth arwyddocaol i'r ymgyrch Dim Peilonau. Roedd gwrthwynebiad lleol chwyrn i gynigion y Grid ac roedd y penderfyniad terfynol a wnaed yn cydnabod yr egwyddor na ddylai peilonau fod y dewis cyntaf bob tro.

Mae'r Grid bellach yn bwriadu dod â'r ceblau tanddaearol i fyny i'r wyneb rhywle yng nghyffiniau Rhiw Nant Y Garth. Byddent wedyn yn codi llinell o beilonau i'r is-orsaf ym Mhentir. Byddai hyn ond tua 2 cilometr o hyd. Mae'n gwneud synnwyr i danddaearu y darn olaf yma hefyd. Rydym yn annog y Grid Cenedlaethol i ystyried yn ofalus iawn rinweddau tanddaearu 2 cilometr olaf y cysylltiad rhwng y Fenai a Phentir, fel y gallwn gadw Arfon yn rhydd o unrhyw ddatblygiad peilonau newydd."

Triathlon Llanc y Llechen – ond y merched yn rhagori



Tim Merched buddugol y Triathlon Llawn

Daeth tair gwobr gyntaf i'r fro. Yn y Sbrint ar y Sadwrn, enillodd Llinos Jones, Tanycoed (nofio), Claudette Fleming, Llanberis (beicio) a Jenny Heming, Llanberis (rhedeg) y wobwr i'r tim merched.

Yn y Triathlon llawn ar y Sul, daeth Helen Morgan, Rhiwlas (nofio), Rhian Thomas, Llanrug (beicio) a Jennifer Charlton, Taly bont (rhedeg) yn gyntaf o'r timau merched, ac yn y gystadleuaeth i dimau cymysg, Llinos Jones (eto!), ei gŵr, Neil Garton Jones (beicio) a Ben Hadfield, Felinheli (rhedeg) oedd yr enillwyr.

Yn y Sbrint, daeth Brian Wills, Llanberis yn ail dros 40 oed, ac yn y Triathlon Llawn, daeth Helen Teasdale, Dinorwig yn ail ferch dros 40 oed. Yn y Llawn hefyd daeth Owain Llyr, Deiniolen yn ail dan 23 oed.



Daeth Mai i ben gyda ras Hanner Marathon Eryri yn Llanrwst, ac yn cynnwys dringfa galed drwy goedwig Gwydir. Alun Vaughan oedd yn fuddugol, a daeth Arwel Lewis (Bethel) yn gyntaf dros 55 oed. Llongyfarchion i'r ddau. Roedd penwythnos cyntaf mis Mehefin yn un hynod o brysur. Ac os cofiwch chi, roedd hi hefyd yn boeth eithriadol. Nid yr amgylchiadau gorau i redeg felly. Ond er hynny, daeth llwyddiant i nifer o redwyr y fro.

Mae Ras 1,000 metrau yn un o glasuron y rasys mynydd, a'r rhedwyr yn herio copaon uchaf Eryri wrth deithio o lan y mor yn Abergwyngregyn dros y Carneddau a Thryfan cyn diwedd ar gopa'r Wyddfa. A bachgen lleol, Gareth Hughes o Benisarwaun aeth a'r wobwr, a thorri'r record am y cwrs hefyd. Mae'n anodd credu ei fod wedi rhedeg y pellter a'r tirwedd garw mewn 4 awr, 4 munud a 32 eiliad!

Daeth llwyddiant yn yr un ras hefyd i wr a gwraig o Ddinorwig, gyda Maggie Oliver yn ennill categori'r merched dros 60 oed, a'i gwr, Alwyn yn ennill y categori i ddynion dros 70 oed.

Ar yr un diwrnod, roedd carfan gref o Glwb Rhedwyr Eryri yn cystadlu



Enillwyr rasys y plant yng nghyfres Nos Fawrth

Cafodd Ras Moel Hebog ei 'hatgyfodi', a'i rhedeg ar yr hen gwrs, gan gychwyn mewn cylch o amgylch pentref Beddgelert. Matthew Roberts oedd yn fuddugol.

Ac wedi ei gwasgu rhwng y rasys Nos Fawrth hyn roedd Ras Deiniolen, a gynhaliwyd ar noson hyfryd o haf, gyda chefnogaeth anhygoel gan y trigolion, a bron cymaint o stiwardiaid ac o redwyr! Do, daeth 95 (a'u traean yn ferched) i herio'r cwrs 10 cilomedr caletaf yng Nghymru o bosib. Shaun Davies oedd y rhedwr lleol cyntaf a Steffan Williams, hogyn lleol, oedd y rhedwr ieuanc gorau.

Ymlaen felly am binacl y flwyddyn i ambell un, sef Ras yr Wyddfa, a nifer helaeth o redwyr lleol yn cystadlu.

mewn clasur arall: Ras Gyfnewid y Cestyll, gan redeg cymalau yn amrywio o 9 milltir i 13 milltir o Gastell Caernarfon i Gastell Caerdydd. Ac yr oedd mwyafrif y rhedwyr – yn feibion a merched – yn dod o'r fro. Daeth y tim yn ddegfed allan o dros 60 o dimau eraill.

Ar yr un penwythnos cynhaliwyd Ras Llwybr Coedwig Beddgelert, ble daeth Phil Lynes, Llanrug yn ail, a Ras 10 cilomedr Abersoch. Bron na ellir dweud fod gormod o ddewis bellach!

Wythnos yn ddiweddarach a chynhaliwyd Ras Pedol Cwm Pennant, a oedd eleni yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain. Trefnydd y ras oedd Matthew Roberts, Llanberis, ac yr oedd yn hynod falch o weld tua dau gant a hanner o redwyr mynydd gorau Prydain yn cystadlu. Torrodd y deg ar hugain cyntaf yr hen record am y cwrs! Daeth Matthew ei hun yn drydydd, a Bronwen Jenkinson, Waunfawr yn drydedd merch ac yn ferch gyntaf dan 23 oed. Mae ganddi siawns dda o ennill y bencampwriaeth Brydeinig yn yr oedran hwn. Alwyn Oliver, Dinorwig, oedd y rhedwr cyntaf erioed dros 70 oed i gwblhau'r cwrs. Gwnaethpwyd digon o elw i roi cyfraniad sylweddol i Ysgol Feithrin Garn Dolbenmaen, ac i brynu 13 gafr i elusen sy'n cynorthwyo ffermwyr yn Uganda.

Heb anghofio Cyfres Rasys Nos Fawrth sydd wedi cyrraedd ei phen-llanw, a rhedwyr lleol unwaith eto'n herio'i gilydd am y prif wobrau. Yn Ras y Tair Dringfa ym Mhenmaenmawr, Matthew Roberts a Gareth Hughes oedd o fewn eiliad i'w gilydd yn gorffen y ras.

Bu'n rhaid osgoi copa'r Garn yn Rhyd-ddu oherwydd bygwth mell, a rhedeg cwrs byrrach, a'r nos Fawrth ddilynol yn Nhal y Mignedd, Gareth Hughes oedd yn fuddugol. A'r diwedd glo yn Llanberis gyda ras fer hynod o gyflym a Matthew Roberts yn ennill. Ac wedi deg ras a chystadlu brwd gan dros 300 o redwyr amrywiol eu gallu a'u hoedran, Gareth Hughes oedd yn fuddugol, a chael y blaen ar Matthew o 0.05% yn unig! Daeth gwobrau lu i blant y fro hefyd yn y rasys iau.



Matthew a Gareth yn ail a thrydydd ar y ddringfa gyntaf o'r tair.



Ar ben arall i'r lein

Diolch i Brian Price, Deiniolen, a John Fraser Williams, Crawia, am ymateb i fy nghais am lun Alafon (Parch Owen Griffith Owen, Ysgoldy) nid yn unig lluniau a ddaeth i law ond hefyd gryn wybodaeth am ei yrfa a'i lwyddiant fel llenor. Yn anffodus ni ddaeth dim gwybodaeth am ei gamp gyda'r enwair ond rhyw ychydig sibrydion mai Llyn Marchlyn Bach fyddai un o'i hoff lecynnau, a dyna le eithriadol yw'r fan honno. Cyn symud o Ddeiniolen i fyw dyna oedd un o'r dyfroedd y byddwn i a nifer fawr o'r hogiau yn fynychu. Mae'n rhaid cyfaddef nad oedd ein ymdrechion gyda'r brithyll yn cydymffurfio yn llythrennol â'r gyfraith, ond dyna'r ffordd y dysgais lawer o gyfrinachau'r pysg a'u prydau bwyd.

Dydwn i ddim wedi amddifadu fy hun o Marchlyn yn gyfan gwbwl gan fy mod wedi galw yno yn ystod yr haf diwethaf, ond yn anffodus heb yr enwair a, mewn difri, 'roeddwn wedi fy synnu o'r ochr orau am y nifer o grethill oedd o amgylch y glannau. Eisteddais yno am ryw ychydig i synfyfrio a chofio'r hwyl a fu, ond yn fwy na hynny fe ddatblygodd naid go dda ynghanol y llyn. Gwnes addewid y byddwn yn ymweld eto, 'rwyf wedi tynnu allan yr hen gêr 'sgota' minnows' a mi fydd bagiad o frithyll yn sicr o ddod fy ffordd yn yr wythnosau nesaf.

Mis diwethaf cyfeiriwyd dan 'Yn ystod y mis aeth heibio' am y llanastr ddaeth ar 1af Mai yn ffordd adeiladu gorsaf drydan-hydro ar yr Afon Las yn Nant, fe lygrwyd yr holl afonydd Las, Peris a'r Bala, yn ogystal â rhan fawr o Lyn Padarn gan arllwysion o'r gwaith. Pwy a wŷr y difrod ychwanegol mae hyn wedi ei wneud i amgylchedd fregus ein dyfroedd. 'Rydym wedi ceisio cael gwybodaeth ar ganlyniad y llygru yma ond yr unig ymateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru yw eu bod yn archwilio'r mater ac felly nid yw'n bosib ymhelaethu. Fel dilyniant i safon gwarthus ein dyfroedd yn ystod prynhawn Sadwrn, 4 Mehefin, daeth aelodau o'r gymdeithas ar draws arllwysiad difrifol o waith carthffos Caernarfon, ble llygrwyd y Seiont o Lyn Du yr holl ffordd i'r Fenai. Ia, y gymdeithas roddodd yr wybodaeth yn union i Gyfoeth Naturiol Cymru, ond gan eu bod mor brysur nid oedd yn bosib i neb droi allan i fod yn dyst i'r digwyddiad. Oes rhagor o wybodaeth i gael am hyn - wel nagoes unwaith eto; yr ateb yw 'gan fod archwiliad ar waith nid yw'n bosib trafod y mater.

Mae'n debyg fod llawer gyda'r argraff fy mod fel hen diwn gron ynglŷn â phroblemau a chanlyniad y llygru beunyddiol 'ma sy'n effeithio dyfroedd ein bro. Wrth gwrs, dwi'n cyfaddef fy mod yn hollol euog o hyn, a phan dwi'n edrych yn ôl ar y pleser amhrisiadwy dwi wedi gael o bysgota'n lleol, y cwmni difyr a'r cyngor rydw i a llawer i un arall wedi ei dderbyn gan y tiwtoriaid arbennig a fyddai'n ymddiddori'n y grefft. Mi gafodd rhain y pleser mawr o drosglwyddo eu gwybodaeth i ni a oedd yn dilyn

eu llwybrau. Yn anffodus mae be sydd wedi digwydd yma dros y 25 mlynedd diwethaf, ac sy'n dal i ddigwydd, yn ei gwneud yn amhosib i ni beth bynnag drosglwyddo'r hyn a roddwyd i ni ymlaen, a dyna be sy'n torri fy nghalon.

Un o'r enghreifftiau amlycaf o hyn yw pysgota'r torgoch. Faint o gychod fyddai allan o Lanberis a Penllyn yn ystod y blynyddoedd y byddwn yn dechrau arni fy hun? Faint sydd yna heddiw? Wel dim un; mae pawb wedi rhoi'r gorau iddi am fod y torgoch bron â marw allan. Be di'r achos am hyn, does ond un ateb, sef llygredd a datblygiadau.

Mae datblygiadau y ffordd iawn i'w croesawu - ond, onid yw yn synhwyrol i ofyn i'r rhai sy'n cael, neu yn mynd i gael, effaith ar y dyfroedd i gyfrannu at gadw safon y dyfroedd sy'n cael eu effeithio drwy eu gweithgareddau. Pam rwy'n cyffwrdd â hyn? Wel, yn ddiweddar mae dalgylch Padarn/Seiont yn edrych fel petai yn mynd i fod yn bencadlys Cymru ar orsafoedd trydan-hydro. Mae gorsaf bwmpio Dinorwig gyda ni ers blynyddoedd lawer, mae hefyd tair gorsaf lai wedi ei hadeiladu yn Nant Peris gyda un arall ar ei ffordd, hon sy'n achosi problem ar yr afon Las. Mae un arall ar y ffordd ar yr Afon Goch gyda chais cynllunio i mewn ar un enfawr arall yng Nglyn Rhonwy. Mae gorsaf Dinorwig yn rhannol gyfrifol am ddifetha'r torgoch. Os bydd Glyn Rhonwy yn cael caniatad, wel dyna ddiwedd arni go iawn i holl bysgodfeydd y dalgylch.

Ond mae cwestiwn i'w ofyn - a oes bosib lliniaru'r diffeithwch pysgodfaol 'ma sy'n cael ei greu yn y fro. Yr ateb yw - oes, mae'n bosib troi pethau rownd ond mae'n rhaid buddsoddi. Ein teimlad fel pysgotwyr yw y dylai pawb sy'n cael effaith ar y dyfroedd gyfrannu i gadw a gwella safon y dalgylch. Mae pob cynllun hydro yn sicr o gael rhyw effaith yn y pendraw. A gwreiddyn pob datblygiad fel hyn yw i wneud elw, felly beth am gael rhyw gytundeb ar gydweithio i ddod â safon y bysgodfa yn ôl i sut yr oedd cyn yr holl broblemau 'ma. Mae'n sicr y buasai'r hen ful 'na yn y 'Grand National' gyda mwy o gyfle i guro na gweld rhain i gyd yn cyfrannu a chydweithio. Ond rhaid peidio â cymryd y mul yn ysgafn, gan efallai fod rhyw obaith bach gan fod yr hen ful 'na o Fflint 'wedi ennill dros saith mlynedd bron bedwar ugain punt!!

Er gwaethaf hyn i gyd 'mae'r sgota yn dal iddi, gyda llynnoedd Dywarchen, Cwellyn a Nantlle yn 'sgota'n eithriadol o dda, a wyddoch i be mae'n rhaid fod stoc arbennig o frithyll yma gan fy mod yn gweld Gwalch y Pysgod yn fwy aml o gwmpas y lle. 'Roedd yn cael gwell hwyl arni na mi yr wythnos diwethaf ar y Cwellyn. Pam dwi'n codi hyn ydi gan fy mod yn go sicr fod mwy na phâr y Glaslyn yn nythu o gwmpas y lle. Dyma chi le arall dwi wedi gweld rhai yw ym Mhontllyfni. Felly sgwn i a oes nythod, tybed, yng nghyffiniau Rhyd-ddu ac Aberdesach?

Wrth gloi atodaf lun o dystiolaeth pendant fod Llyn Padarn wedi newid o fod yn bysgodfa arbennig am dorgoch i bysgodfa arbennig am ddraenogiaid. Be da chi'n feddwl y huna ta?

Dwi'n addo peidio cyffwrdd a'r materion llygredd 'ma mis nesaf - ond fe gewch ddiweddariad ar yr achos sy'n llusgo drwy Lys yr Apeliadau.

Huw Price Hughes.




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvon.co.uk

BALCHDER

Gallwn fod wedi llenwi gofod y Golofn Chwaraeon y tro hwn gyda’r lluniau o gefnogwyr Cymru o Fro’r Eco draw yn Ffrainc. Mae’r Gweplyfr wedi ei fritho’n helaeth. A mi’n llunio hyn o lith mae Cymru eisioes drwodd o’r gemau grwp a gobeithio ar eu ffordd i rownd yr wyth olaf. Fel drodd pethau allan roeddem o fewn munud o ddanfon y Saeson gartref yn fuan.

Dyma oes neu garfan aur yn sicr yn hanes y gêm yng Nghymru. Gwir yw’r slogan ‘Gyda’n Gilydd yn Gryfach’. Yn sicr mae cefnogaeth anhygoel wedi sbarduno y tîm, ac mae’r arferiad o ganu’r anthem yn ystod cyfnodau dwys wedi ei gopio gan nifer o wledydd bellach.

Roedd y perfformiad yn erbyn Rwsia yn wirioneddol gampus ac anodd credu nad yw chwaraewyr fel Chester, Ben Davies a Joe Allen yn ddewis cyntaf i’w clybiau. Allen yn arbennig. Dyma’r seren i mi gyda’i redeg diflino a’i basio celfydd. Braf fuasai gweld y tri yn lifrai Abertawe y tymor nesaf. Erys o hyd y broblem nad oes gennym flaenwr canol fel Rush neu Bellamy, ond diolch i allu tactegol Coleman ac Osian Roberts rydym wedi goddiweddyd y broblem i ryw raddau. Creu lle i Bale a Ramsey redeg i’r ‘gofod’ yw’r nôd.

I’r miloedd o ‘gefnogwyr’ newydd bydd profiad Ffrainc yn aros am hydoedd. Gobeithio y bydd yr un brwdfrydedd pan fydd gemau rhagbrofol Cwpan y Byd yn dechrau y tymor nesaf.Heb amheuaeth rydym yn dîm sy’n ennyn parch y gwledydd bellach.

Pwy a wŷr, efallai o hyn ymlaen pan fydd Cymru a Lloegr yn chwarae yr un noson mai gêm Cymru fydd yn cael ei dangos ar sgriniau’r tafarnau lleol. Yn sicr, maent wedi elwa o’r Euro 2016. A beth am gynnal yr ysbryd Gymreig drwy fynd i weld ein timau lleol yng Nghynghrair Cymru, yn lle beirniadu o bell.

Yr her i ni gyd yn weinyddwyr, chwaraewyr a chefnogwyr yw cynnal yr ‘ysbryd’ newydd yma yn ein gêm genedlaethol.

DAL I DDISGWYL

Gyda balchder dros fisoedd y gaeaf roeddem yn dilyn llwyddianau Rhun Williams cefnwr tîm dan 20 rygbi Cymru ar y daith i gipio y Gamp Lawn. Serenodd yn y gystadleuaeth a goronwyd trwy dderbyn cytundeb proffesiynol gyda Gleision Caerdydd.

Ymlaen aeth y tîm i gystadleuaeth y Byd draw ym Manceinion. Yma eto serenodd Rhun yn y gemau grwp a gwelwyd sawl agwedd o chwarae cadarn Rhun – yn amddiffynol ac ymosodol. Ond, siom fu’r gystadleuaeth i Bencampwyr Hemispher y Gogledd. Collwyd i’r Iwerddon a Seland Newydd o un pwynt – a churo Georgia o un pwynt. Brwydro am y mân safleoedd oedd hi i Gymru bellach gan orffen yn chweched.

Yn anffodus, anafwyd Rhun ac felly methodd y grasfa go iawn gan Seland Newydd yn y gêm nesaf. Mae Rhun ar hyn o bryd felly ymysg y cannoedd o chwaraewyr rygbi Cymreig ar sawl lefel sy’n dal i ddisgwyl i guro’r Teirw Duon. Byddwn yn dal i gadw golwg ar ddatblygiad Rhun. Un peth calonogol i’r chwaraewyr dawnus ifanc yw fod U.R.C. o’r tymor nesaf ymlaen am ail gyflwyno carfan genedlaethol lefel ‘A’. Dyma sbardun iddynt ac hefyd rhoi pwysau ar y tramorwyr costus sy’n eu cadw ar feinciau carfanau y timau taleithiol.

E Tlws Yr Eco 2016

Pan fyddwch yn derbyn y rhifyn hwn byddwn ynghanol cystadleuaeth eleni. Diolch yn arbennig i glybiau Deiniolen a Llanberis am ein gwahodd. Diolch hefyd i’r hyfforddwyr am eu cyd-weithrediad parod, ac i’r llu o rieni sy’n dod i gefnogi. Fe gawn luniau o’r cystadlaethau yn y rhifyn nesaf.

MODURDY’R WYDDFA
Snowdon Garage
 LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225





**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**
 Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
 Gwaith proffesiynol o’r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

DANGOS EU DANNEDD

Er nad wyf yn dyfarnu gemau criced yn rheolaidd bellach, rwyn dal yn aelod o Gymdeithas y Dyfarnwyr ac yn derbyn eu misolyn. Yma, ceir adroddiadau, trafodaethau a llythyron yn ymwneud â’r gêm ar bob lefel.

Dros y rhifynau diwethaf daeth yn amlwg fod ymddygiad annerbyniol yn cynyddu ar sawl lefel. Yn wir, yn ystod y tymor diwethaf bu rhaid dirwyn pump gêm i ben yn gynnar oherwydd ymladd ar y cae. Mae cwestiynnu penderfyniadau dyfarnwyr hefyd ar gynnydd. Gor-apelio yn un arall. Yn wir, gwelaf hyn yma yng nghemau’r gogledd gyda rhai chwaraewyr yn apelio am ‘goes o flaen’ neu ‘rediad allan’ pan nad ydynt mewn unrhyw sefyllfa o fod mewn safle i weld y digwyddiad yn eglur.

Problem fawr wrth ymladd y dirywiad yw amharodrwydd nifer o ddyfarnwyr i ddilyn y ‘maen i’r wal’. Maent yn meddwl eu bod yn gwneud eu hunain yn boblogaidd gyda’r chwaraewyr wrth beidio ymateb.

Y brif broblem yw mai’r ffordd fwyaf gyffredin o groniclo’r digwyddiadau yma yw gan dystiolaeth ysgrifenedig gan y dyfarnwyr. Rwyf wedi bod mewn paneli disgyblu ble mae adroddiadau y ddau ddyfarnwr yn ‘wahanol’ tra’n disgrifio’r un digwyddiad.

Mae’n ymddangos fod yr awdurdodau wedi penderfynu ‘digon yw digon’. O’r tymor nesaf ymlaen fe drealir cod ymddygiad/cosb newydd.O hyn ymlaen gall y dyfarnwyr ddanfon chwaraewr euog oddiar y maes am weddill y gêm. Mae hyn yn cynnwys unrhyw weithred anerbyniol corfforol, geiriol neu hiliol. Os mae batiwr yn euog yna caiff ei ddanfon o’r cae ac hefyd ei gyfrif ‘allan’. Os ef yw’r nawfed wiced i ddisgyn, yna yn sgil y penderfyniad mae batiad y tîm yn dod i ben.

Os yw’r digwyddiad yn cael ei ddiffinio fel ‘bygwth’ tuag at ddyfarnwr neu chwaraewr gall yr euog gael ei ddanfon o’r maes am 10 pelawd heb eilydd. Diddorol fydd gweld os bydd y sancsiynau yma yn gweithio. Y cwestiwn yw a fydd awdurdodau y gwahanol gynghreiriau yn barod i weithredu ar yr argymhellion. Amser a ddengys.

ADRE’N ÔL


Mae lluniau noson wobrwyo clwb Pêl-droed Llanrug yn britho’r golofn. Cafwyd rhediad da iawn ddiwedd y tymor a gorffen mewn safle parchus yn y tabl terfynol. Y mae Llanrug yn un o nifer o dimau bellach sydd â sylfaen da o bwyllgor, cyfleusterau a chefnogwyr. Serch hynny, fe fyddant yn ei gweld hi’n annodd i symud ymlaen yn y ‘pyramid’ cenedlaethol oherwydd rhai ‘cyfleusterau’ fel eisteddleoedd oherwydd diffyg arian i dalu am y fath ddatblygiadau. Diddorol felly oedd gweld yr alwad yn ddiweddar gan John Hartson fod rhan o’r arian ‘sylweddol’ fydd yn llifo i goffrau C.P.D.C. o’r llwyddiant Ewropiaidd yn cael ei wario ar lefel llawr gwlad y gêm.

Dyma gyfle gwyh i danio brwdfrydedd yr ifanc yn y gêm. Rwyn siwr nad yw Gogledd Cymru’ ddim gwahanol i ranbarthau eraill, ble mae canran rhy uchel o arian clwb yn mynd mewn ‘cyflogau’ i chwaraewyr yn hytrach na datblygu cyfleusterau. Mae cnewyllyn da o hyfforddwyr ar gael bellach. Siom felly yw gweld nifer o gemau yn dal i gael eu chwarae ar ‘gaeau tatws’, a phrin iawn yw’r tironaeth ar gaeau ysgol bellach.

Un darn o newyddion da i Lanrug yw fod yr amryddawn Kevin Lloyd wedi dychwelyd i’r clwb wedi cyfnod llwyddianus ar yr Oval. Dyma’r math o chwaraewr sy’n gystadleuol ac yn gallu tanio ei gyd-aelodau yn y tîm.



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
 CENTRAL GARAGE
 LLANBERIS
 FFON- (01286) 870202



Ffenestri CADNANT Windows
 iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Chwaraeon

Mae'r "Eco" wedi hen arfer llongyfarch gwahanol unigolion a thimau o'r fro sydd wedi dod yn bencampwyr Cymru mewn nifer o wahanol gampau. Ddiwedd Mai yn Milton Keynes, cynhaliwyd Pencampwriaeth Rasys Beicio Hŷn Prydain dan oruchwyliaeth British Cycling, a daeth Gareth McGuiness yn ôl i Lanrug gyda'r fedal aur i'w hychwanegu at yr efydd a'r arian oedd eisoes yn ei feddiant. Pencampwr Beicwyr Hyn Prydain.

Enillodd y fedal arian y llynedd, a hynny mewn sbrint am y llinell derfyn. Eleni, roedd yn benderfynol o beidio cymryd y siawns o ennill neu golli ar ganlyniad sbrint, a'i gynllun oedd ceisio torri'n rhydd o weddill y beicwyr (y peloton) cyn diwedd y ras. Ac mae'n debyg mai ei ymarfer caled dros ellydd serth Eryri fu'n bennaf gyfrifol am ei fuddugoliaeth.

Mewn ras o 80 milltir roedd nifer o fryniau a gelltydd eithaf serth, a phenderfynodd Gareth gadw mor agos i flaen y peloton a phosib er mwyn cadw llygad barcud ar unrhyw symudiad. Roedd cyfartaledd cyflymder y beicwyr yn 26 milltir yr awr gydol y ras. Gyda phymtheg milltir i fynd, roedd tri beiciwr wedi torri'n rhydd, ac yn arwain y peloton o ryw ugain eiliad. Gadawn i Gareth ddisgrifio'r hyn ddigwyddodd wedyn:

"Roeddwn i'n teimlo fod beicwyr y peloton yn dechrau blino. Roedd yn rhaid ymosod a dal y tri ar y blaen. Cyflymu, a gadael y peloton. Golwg sydyn dros f'ysgwydd: roedden nhw'n trio cadw'i fyny, ond yn methu. Y tri ar y blaen yn dod yn nes. Eu dal, a mynd heibio. Gwthio, gwthio, gwthio i'w gadael, ond un yn medru hongian yng nghysgod f'olwyn ôl. Dim ond dau yn y ras, a'r gweddill yn pellhau. Dal i wthio; dal i wthio, ond methu cael gwared a'r cysgod tu cefn. Dwy filltir i'r diwedd, a gallt o 400 metr o'm blaen. Roedd yn rhaid ymosod eto. Un ymdrech oedd ei angen. Erbyn cyrraedd copa'r allt gallwn ei glywed yn tuchanu tu ôl ac yn lloewio aer yn swllyd. Roedd ei ymdrech olaf drosodd. Ar ben fy hun y reidiais weddill y ddwy filltir; yn gwybod fy mod wedi ennill."

Mae gan Gareth bellach yr hawl i wisgo jersi pencampwr Prydain am y deuddeg mis nesaf. Wedi hynny, bydd ganddo'r hawl i wisgo band y bencampwriaeth ar lewys ei grys – yn ychwanegol i fand pencampwriaeth Cymru.

Fel roedd yr Eco'n barod i'w anfon i'r wasg daeth y newydd am ail lwyddiant Gareth ac ail bencampwriaeth Brydeinig, pan enillodd eto; y tro hwn dan oruchwyliaeth Cynghair Rasio Beicwyr Hŷn Prydain (sef oedran dros 40 oed).

Ein llongyfarchiadau iddo ar ei gamp ddwbl.

Pencampwr Prydain - ddwywaith



Pencampwriaeth Beicio Cymru.

Un arall o'r fro sy'n dilyn ôl troed Gareth yw Gwyn Arfon Williams o Lanrug. Mae'n beicio i dim Energy Cycles, ac yn ystod y mis diwethaf daeth yn chweched yn Llandrindod mewn ras pencampwriaeth Cymru.

Gwobrau CPD Llanrug



Phil Lynes (Rheolwr yr Ail Dim) yn cyflwyno Tlysau Chwaraewyr y Tymor yr Ail Dim i Gruff Parri a Alex Lynes.



Maureen Pierce a'i merch Iona yn cyflwyno Tarian Coffa Alun Pierce i Chwaraewyr y Tymor i Dylan Owen, Capten y Clwb.



Dafydd Arfon Jones y Cadeirydd yn cyflwyno Tlws Rheolwr y Mis Cyngair Undebol ar gyfer Ebrill 2016 i'r Rheolwr Mark Jat



Mark Jat (Rheolwr Tim 1af) a Dafydd Arfon Jones (Cadeirydd y Clwb) yn cyflwyno Tlws Chwaraewr y Flwyddyn y Rheolwr.